



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales**

**Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2
Legislation Committee No. 2**

**Dydd Mercher, 17 Mawrth 2010
Wednesday, 17 March 2010**

Cynnwys
Contents

- 3 Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions
- 4 Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth
Proposed Welsh Language (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynndi yn y cyfarfod.
Yn ogystal, cynhwysir cyfieithiad Saesneg o gyfraniadau yn y Gymraeg.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the meeting. In addition, an English translation of Welsh speeches is included.

Aelodau'r pwyllgor yn bresennol
Committee members in attendance

Lorraine Barrett	Llafur (yn dirprwyo ar ran Lynne Neagle) Labour (substitute for Lynne Neagle)
Michael German	Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats
Gareth Jones	Plaid Cymru The Party of Wales
Val Lloyd	Llafur (Cadeirydd y Pwyllgor) Labour (Chair of the Committee)
Rhodri Morgan	Llafur Labour
Brynle Williams	Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives

Eraill yn bresennol
Others in attendance

Nerys Arch	Gwasanaethau Cyfreithiol, Llywodraeth Cynulliad Cymru Legal Services, Welsh Assembly Government
Alun Ffred Jones	Aelod Cynulliad, Plaid Cymru (y Gweinidog dros Dreftadaeth) Assembly Member, Plaid Cymru (the Minister for Heritage)
Dr Huw Onllwyn Jones	Pennaeth Uned Bolisi'r Iaith Gymraeg a'r Cyfryngau, Llywodraeth Cynulliad Cymru Head of Welsh Language and Media Policy Unit, Welsh Assembly Government

Swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn bresennol
National Assembly for Wales officials in attendance

Stephen Davies	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Gwyn Griffiths	Cynghorydd Cyfreithiol Legal Adviser
Owain Roberts	Dirprwy Glerc Deputy Clerk
Alys Thomas	Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau Members' Research Service
Gareth Williams	Clerc Clerk

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 a.m.
The meeting began at 10.30 a.m.

Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon
Introduction, Apologies and Substitutions

[1] **Val Lloyd:** Good morning, everyone. Welcome to this morning's meeting of Legislation Committee No. 2. We have received apologies from Lynne Neagle, and I am delighted to say that Lorraine Barrett will be substituting on her behalf for the duration of the committee's consideration of this

Val Lloyd: Bore da, bawb. Croeso i'r cyfarfod hwn o Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 2. Yr ydym wedi derbyn ymddiheuriadau oddi wrth Lynne Neagle, ac y mae'n bleser gennyf ddweud y bydd Lorraine Barrett yn dirprwyo ar ei rhan am weddill ystyriaeth y pwyllgor o'r Mesur arfaethedig hwn.

proposed Measure.

[2] We are not expecting a fire alarm test this morning. So, if you hear an alarm, you will be expected to leave. All mobile phones and such equipment should be switched off, as they interfere with the broadcasting equipment. The National Assembly for Wales operates through the media of the Welsh and English languages; headphones are available for translation purposes, on channel 1, and for amplification of sound, on channel 0. I remind Members that there is no need to manually turn on the microphones; we are in public session and they will be switched on for you by the staff.

Nid ydym yn disgwyl prawf larwm tân y bore yma. Felly, os clywch y larwm, bydd disgwyl ichi ymadael. Dylid diffodd pob ffôn symudol a chyfarpar tebyg, gan eu bod yn amharu ar yr offer darlledu. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg; mae clustffonau ar gael ar gyfer clywed cyfieithiad ar y pryd, a geir ar sianel 1, a gellir eu defnyddio hefyd i chwyddleisio'r sain, ar sianel 0. Hoffwn atgoffa Aelodau nad oes angen cyffwrdd â'r meicroffonau i'w troi ymlaen; sesiwn gyhoeddus yw hon ac felly bydd y staff yn eu troi ymlaen ar eich rhan.

10.31 a.m.

Mesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru)—Cyfnod 1: Sesiwn Dystiolaeth Proposed Welsh Language (Wales) Measure—Stage 1: Evidence Session

[3] **Val Lloyd:** This is our first evidence session on the Proposed Welsh Language (Wales) Measure. We are taking evidence this morning from the Minister for Heritage in relation to this proposed Measure. Good morning, Minister, and welcome to the meeting.

Val Lloyd: Dyma ein sesiwn dystiolaeth gyntaf ar Fesur Arfaethedig y Gymraeg (Cymru). Heddiw, yr ydym yn cymryd dystiolaeth gan y Gweinidog dros Dreftadaeth ynglŷn â'r Mesur arfaethedig hwn. Bore da, Weinidog, a chroeso i'r cyfarfod.

[4] **Y Gweinidog dros Dreftadaeth (Alun Ffred Jones):** Bore da.

The Minister for Heritage (Alun Ffred Jones): Good morning.

[5] **Val Lloyd:** You are accompanied by your officials, Huw Jones, who is head of the Welsh language and media policy unit, and Nerys Arch, the lawyer.

Val Lloyd: Yr ydych wedi dod â'ch swyddogion gyda chi, sef Huw Jones, pennaeth uned bolisi'r iaith Gymraeg a'r cyfryngau, a Nerys Arch, y gyfreithwraig.

[6] Shall we go straight into questioning, Minister?

Awn yn syth at y cwestiynau felly, Weinidog.

[7] **Alun Ffred Jones:** Yes.

Alun Ffred Jones: Iawn.

[8] **Val Lloyd:** I will take the first few questions. Can you briefly outline the aims of the proposed Measure?

Val Lloyd: Daw'r ychydig gwestiynau cyntaf wrthyf fi. A wnewch chi amlinellu'n gryno amcanion y Mesur arfaethedig?

[9] **Alun Ffred Jones:** The 'One Wales' programme of Government seeks to confirm the status of both the Welsh and English languages, to provide linguistic rights in the provision of services and the establishment of the post of the language commissioner. The aim of the legislation is to update the Welsh Language Act 1993. Among the aims of the

Alun Ffred Jones: Bwriad rhaglen 'Cymru'n Un' y Llywodraeth yw cadarnhau statws y Gymraeg a'r Saesneg, i roi hawliau ieithyddol o safbwynt darparu gwasanaethau a sefydlu swydd y comisiynydd iaith. Nod y ddeddfwriaeth yw diweddarau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. I enwi ychydig, amcanion y Mesur arfaethedig yw darparu mwy o

proposed Measure is to provide greater clarity and consistency for Welsh speakers with regard to the services that they can expect, to develop a more effective enforcement regime and to provide a strong and independent voice for the Welsh language through the establishment of the commissioner.

[10] **Val Lloyd:** The explanatory memorandum states that the proposed Measure is intended to

[11] 'modernise the existing legal framework largely governed by the Welsh Language Act 1993'.

[12] Can you explain to the committee why the existing legal framework in respect of the Welsh language is in need of modernisation?

[13] **Alun Ffred Jones:** The arrangements for delivering services to the public in Wales have changed in many areas since 1993. The framework set out by the 1993 Act does not enable these changes, such as changes to the structure of certain key public services, to be taken into account consistently. The new ways of delivering services mean that the public face of certain key sectors fall outside the scope of the 1993 Act, which creates the potential for an uneven playing field within these sectors, and uncertainty about the services that Welsh-speaking customers can expect. The Welsh Language Board's experience since 1993 in developing, negotiating and agreeing schemes has shown the process to be resource intensive.

[14] **Val Lloyd:** Paragraph 3.91 of the Legislation Committee No. 5 report on the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Welsh Language) Order 2009 refers to your commitment to consult widely and engage civic society and the public along the way, as proposals for the subsequent Measure are developed. Reference to that is made in paragraph 3.92 of the report. The proposed Measure has been published without any prior consultation period. Why has the Government not heeded the strong recommendation of the committee that

egllurder a chysondeb ar gyfer siaradwyr Cymraeg o ran y gwasanaethau y gellir eu disgwyl, datblygu trefn fwy effeithiol o ran gorfodi, a darparu llais cryfach ac annibynnol i'r Gymraeg wrth sefydlu swydd y comisiynydd.

Val Lloyd: Mae'r memorandwm esboniadol yn datgan y bwriedir i'r Mesur arfaethedig

'foderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol sy'n cael ei lywodraethu'n bennaf gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993'.

A wnewch chi egluro i'r pwyllgor pam y mae angen moderneiddio'r fframwaith cyfreithiol cyfredol o safbwynt yr iaith Gymraeg?

Alun Ffred Jones: Mae'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru wedi newid mewn sawl maes ers 1993. Nid yw'r fframwaith a osodwyd gan Ddeddf 1993 yn galluogi'r newidiadau hyn, megis newidiadau i strwythur rhai gwasanaethau cyhoeddus allweddol yn arbennig, i gael eu hystyried yn gyson. Mae'r ffyrdd newydd o ddarparu gwasanaethau yn golygu bod wyneb cyhoeddus rhai sectorau allweddol y tu hwnt i faes Deddf 1993, sydd yn creu'r potensial am faes lle nad yw'r amodau yr un fath i bawb o fewn y sectorau hyn, ac ansicrwydd ynglŷn â'r gwasanaethau y gall cwsmeriaid Cymraeg eu hiaith eu disgwyl. Mae profiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg ers 1993 o ran datblygu, trafod a chytuno cynlluniau wedi dangos bod y broses yn un dwys o ran adnoddau.

Val Lloyd: Mae paragraff 3.91 adroddiad Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ar Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Yr Iaith Gymraeg) 2009 yn cyfeirio at eich ymrwymiad i ymgynghori'n eang ac i ymgysylltu â dinasyddion ac aelodau'r cyhoedd yn gyffredinol, wrth weithio i ddatblygu cynigion ar gyfer y Mesur dilynol. Ceir cyfeiriad at hynny ym mharagraff 3.92 yr adroddiad. Cyhoeddwyd y Mesur arfaethedig heb unrhyw gyfnod ymgynghori ymlaen llaw. Pam nad ydyw'r Llywodraeth

considered the legislative competence Order that it should consult on any proposed Measure before it is introduced?

[15] **Alun Ffred Jones:** It was not appropriate to consult until legislative competence was conferred on the National Assembly for Wales on 10 February. We wanted to introduce the proposed Measure at the earliest opportunity, because it is an important Measure and one that will fulfil the 'One Wales' commitments on the Welsh language. A three-month call-for-evidence exercise on the wider Welsh language strategy and policy direction was undertaken between October and January, and I was involved in a number of public meetings. Therefore, I have been speaking to stakeholders regularly. Obviously, the committee has issued a call for evidence, which provides further opportunities for people to provide evidence.

[16] **Val Lloyd:** Further to your answer, and paragraph 4.1 of the explanatory memorandum, which discusses the issue that you have just commented upon, could you tell the committee who you spoke to, and how they influenced the proposals?

[17] **Alun Ffred Jones:** There have been regular discussions with the Welsh Language Board, at ministerial and official level. We have sought to engage with the board on numerous occasions, which has been successful. Also, as part of the consultation on the Welsh language strategy, we have spoken at regular intervals with the Confederation of British Industry, Trades Union Congress Wales, the Federation of Small Businesses, the Welsh Local Government Association, the Wales Council for Voluntary Action, the third sector partnership council, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg and Welsh language planners. We have also attended a series of public meetings across Wales in various locations, and held a meeting at the National Eisteddfod in Bala.

[18] **Val Lloyd:** In Plenary on 10 March, you announced that you intended to hold a number of public meetings around Wales to

wedi cymryd sylw o argymhelliad cryf y pwyllgor a fu'n ystyried y Gorchymyn cymhwysedd deddfwriaethol y dyldid ymgynghori ar unrhyw Fesur arfaethedig cyn ei gyflwyno?

Alun Ffred Jones: Nid oedd yn briodol i ymgynghori nes bod cymhwysedd deddfwriaethol wedi'i roi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 10 Chwefror. Yr oeddem am gyflwyno'r Mesur arfaethedig cyn gynted â phosib, gan ei fod yn Fesur pwysig a fydd yn cyflawni ymrwymadau 'Cymru'n Un' ar yr iaith Gymraeg. Cynhaliwyd ymarfer dros gyfnod o dri mis yn galw am dystiolaeth ar strategaeth yr iaith Gymraeg yn ehangach a'r cyfeiriad o ran polisi rhwng mis Hydref a Ionawr, a bûm yn rhan o sawl cyfarfod cyhoeddus. Felly, yr wyf wedi bod yn siarad â rhanddeiliaid yn gyson. Wrth gwrs, mae'r pwyllgor wedi cyhoeddi galwad am dystiolaeth, sydd yn rhoi cyfle pellach i bobl roi tystiolaeth.

Val Lloyd: Yn dilyn eich ateb, a pharagraff 4.1 o'r memorandwm esboniadol, sydd yn trafod y mater yr ydych newydd sôn amdano, a fedrwch chi ddweud wrth y pwyllgor â phwy y buoch yn siarad, a sut y dylanwadwyd ar y cynigion?

Alun Ffred Jones: Cafwyd trafodaethau cyson gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, ar lefel weinidogol a swyddogol. Yr ydym wedi ceisio ymgysylltu â'r bwrdd ar sawl achlysur, ac wedi llwyddo yn hyn o beth. Hefyd, fel rhan o'r ymgynghoriad ar strategaeth yr iaith Gymraeg, yr ydym wedi bod mewn trafodaethau cyson gyda Chydffederasiwn Diwydiant Prydain, Cyngres Undebau Llafur Cymru, y Ffederasiwn Busnesau Bach, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, cyngor partneriaeth y trydydd sector, Mudiadau Dathlu'r Gymraeg a chynllunwyr yr iaith Gymraeg. Yr ydym hefyd wedi bod i gyfres o gyfarfodydd cyhoeddus ar draws Cymru mewn gwahanol leoliadau, yn ogystal â chynnal cyfarfod yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Bala.

Val Lloyd: Yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Mawrth, dywedasoch eich bod yn bwriadu cynnal nifer o gyfarfodydd cyhoeddus ledled

explain your proposals. Why was this exercise not conducted before the proposed Measure was published?

[19] **Alun Ffred Jones:** It was not appropriate to do so before the proposed Measure had been laid before the National Assembly. It is not our intention to cut across the call for evidence issued by this committee; the aim of the public meetings is to explain the proposed Measure more fully to those people who are interested.

[20] **Val Lloyd:** You have touched upon my next question. As you know, we have started our evidence gathering for Stage 1 today. There could be a danger that your public meetings will be confused with our consultation exercise, which might undermine public understanding of the legislative process. That could possibly hamper the objective of building consensus around these proposals, which is something that you have identified as being desirable. Can you tell us how this scenario could be avoided?

[21] **Alun Ffred Jones:** There will be no confusion and I will direct anyone who wishes to suggest any amendments to the work of this committee. The purpose of the public meetings is very different in nature, and I would not wish to seek to undermine the due processes that have started here.

[22] **Val Lloyd:** Therefore, what outputs are you expecting from the public meetings?

[23] **Alun Ffred Jones:** A greater understanding of how the proposed Measure will work, and how it will fulfil the aims stated in 'One Wales'.

[24] **Val Lloyd:** Will the outputs of your meetings be available to the committee?

[25] **Alun Ffred Jones:** If there are any relevant comments, I will pass them on freely, but I will direct anyone who wishes to suggest amendments or who has different views, to this committee. I think that it would be better for them to speak to you directly, rather than come through me.

Cymru i egluro'ch cynigion. Pam na chynhaliwyd yr ymarfer hwn cyn cyhoeddi'r Mesur arfaethedig?

Alun Ffred Jones: Nid oedd yn briodol gwneud hynny cyn i'r Mesur arfaethedig gael ei osod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Nid torri ar draws galwad y pwyllgor hwn am dystiolaeth yw ein bwriad; nod y cyfarfodydd cyhoeddus yw i egluro'r Mesur arfaethedig yn llawnach i'r bobl hynny sydd â diddordeb.

Val Lloyd: Yr ydych wedi cyffwrdd â'm cwestiwn nesaf. Fel y gwyddoch, yr ydym wedi dechrau casglu dystiolaeth ar gyfer Cyfnod 1 heddiw. Mae perygl i'r cyfarfodydd cyhoeddus gael eu gweld fel rhan o'n hymarfer ymgynghori ni, a allai danseilio dealltwriaeth y cyhoedd o'r broses ddeddfu. Gallai hynny rwystro'r amcan o greu consensws o ran y cynigion hyn, sydd yn rhywbeth yr ydych wedi ei nodi o fod yn ddelfrydol. A fedrwch chi ddweud wrthym sut y gellid osgoi sefyllfa o'r fath?

Alun Ffred Jones: Ni fydd unrhyw ddryswch ac fe gyfeiriaf unrhyw un sydd yn dymuno awgrymu unrhyw welliannau at waith y pwyllgor hwn. Mae pwrpas y cyfarfodydd cyhoeddus yn wahanol iawn o ran natur, ac ni fyddwn yn dymuno ceisio tanseilio'r prosesau dyladwy sydd wedi dechrau yma.

Val Lloyd: Felly, beth ydych yn disgwyl ei gael o'r cyfarfodydd cyhoeddus?

Alun Ffred Jones: Dealltwriaeth ehangach o'r ffordd y bydd y Mesur arfaethedig yn gweithio, a sut y bydd yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn 'Cymru'n Un'.

Val Lloyd: A fydd ffrwyth gwaith eich cyfarfodydd chi ar gael i'r pwyllgor?

Alun Ffred Jones: Os bydd unrhyw sylwadau perthnasol, fe'u trosglwyddaf yn ddi-oed, ond fe gyfeiriaf unrhyw un sydd yn dymuno awgrymu gwelliannau neu sydd â syniadau gwahanol, at y pwyllgor hwn. Credaf y byddai'n well iddynt siarad â chi yn uniongyrchol, yn hytrach na dod drwof fi.

[26] **Val Lloyd:** Why did the explanatory memorandum not take the opportunity to clearly set out how the new approach that is set out in the proposed Measure will work in practice?

Val Lloyd: Pam na chymerodd y memorandwm esboniadol y cyfle i nodi'n glir sut y bydd y ffordd newydd o weithio a nodir yn y Mesur arfaethedig yn gweithio yn ymarferol?

10.40 a.m.

[27] **Alun Ffred Jones:** I understand that the memorandum follows the requirement set out in Standing Order No. 23.18 and has been deemed acceptable by Assembly Commission officials. However, if you seek further clarity, I will seek to provide it.

Alun Ffred Jones: Caf ar ddeall bod y memorandwm yn dilyn y gofyniad a nodir yn Rheol Sefydlog Rhif 23.18 a'i fod wedi'i ystyried yn dderbyniol gan swyddogion Comisiwn y Cynulliad. Serch hynny, os ceisiwch eglurder pellach, ceisiaf ei roi ichi.

[28] **Val Lloyd:** Thank you, Minister; we are very grateful for that. Brynle has the next question.

Val Lloyd: Diolch yn fawr, Weinidog; yr ydym yn ddiolchgar iawn am hynny. Brynle sydd â'r cwestiwn nesaf.

[29] **Brynle Williams:** I will move on to Part 1, on the official status of the Welsh language. Why does the proposed Measure not make a clear declaration of status for the language? Would that not have been a better approach than a section that merely lists other provisions?

Brynle Williams: Hoffwn symud ymlaen at Ran 1, ar statws swyddogol y Gymraeg. Pam nad ydyw'r Mesur arfaethedig yn gwneud datganiad clir am statws yr iaith? Oni fyddai hynny wedi bod yn well nag adran sydd yn rhestru darpariaethau eraill yn unig?

[30] **Alun Ffred Jones:** I think that the term is 'further provision'. We believe that it does make a clear statement about the official status of the language and confirms that the Welsh language has official status in Wales, but that this proposed Measure makes further provision and defines that further provision clearly in terms of the official status of the language.

Alun Ffred Jones: Credaf mai 'darpariaeth bellach' yw'r geiriau cywir. Credwn ei fod yn gwneud datganiad clir am statws swyddogol yr iaith ac yn cadarnhau bod statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru, ond bod y Mesur arfaethedig hwn yn gwneud darpariaeth bellach ac yn diffinio'r ddarpariaeth bellach honno yn glir o safbwynt statws swyddogol yr iaith.

[31] **Brynle Williams:** Do you consider that section 1 of the proposed Measure makes any change to the status of the language?

Brynle Williams: A gredwch bod adran 1 y Mesur arfaethedig yn newid unrhyw agwedd ar statws yr iaith?

[32] **Alun Ffred Jones:** It confirms that the Welsh language has official status in Wales and then makes further provision in terms of that official status. It will have consequences. Section 1 also signals to any court considering issues in relation to the Welsh language that the Welsh language enjoys official status in Wales.

Alun Ffred Jones: Mae'n cadarnhau bod statws swyddogol i'r iaith Gymraeg yng Nghymru ac yna'n gwneud darpariaeth bellach o safbwynt y statws swyddogol hwnnw. Bydd canlyniadau i hynny. Mae adran 1 hefyd yn rhoi arwydd i unrhyw lys sydd yn ystyried materion sydd yn ymwneud â'r iaith Gymraeg bod gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru.

[33] **Brynle Williams:** The Welsh Language Act 1993 refers to the principle that

Brynle Williams: Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn cyfeirio at yr egwyddor

[34] 'the English and Welsh languages should be treated on a basis of equality'. 'y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal'.

[35] Section 35 of the Government of Wales Act 2006 refers to the same principle. Why is that principle not set out clearly in this proposed Measure, other than in the long title? Mae adran 35 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 yn cyfeirio at yr un egwyddor. Pam na nodwyd yr egwyddor hwnnw yn glir yn y Mesur arfaethedig hwn, heblaw yn y teitl hir?

[36] **Alun Ffred Jones:** The proposed Measure places the principle of equal treatment at the heart of the commissioner's functions. Section 3(1)(c) clearly states that the commissioner may do anything that he or she thinks appropriate **Alun Ffred Jones:** Mae'r Mesur arfaethedig yn rhoi'r egwyddor o ymdriniaeth gyfartal wrth wraidd swyddogaethau'r comisiynydd. Mae adran 3(1)(c) yn nodi'n glir y caiff y comisiynydd wneud unrhyw beth y mae ef neu hi yn ei ystyried o fod yn briodol

[37] 'to promote equality between the Welsh and English languages'. 'er mwyn hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg'.

[38] In addition, the definition of service delivery standards includes standards intended to promote or facilitate treatment of the Welsh and English language on the basis of equality. Yn ychwanegol, mae'r diffiniad o'r safonau cyflenwi gwasanaethau yn cynnwys safonau y bwriedir iddynt hybu neu hwyluso trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cydraddoldeb.

[39] **Michael German:** I am concerned that I do not quite understand from the legislation before me whether or not the commissioner is an independent person. If you look at the legislation, you will see that sections 10, 11, 15, 63, 66 and 97 all contain directions on the powers of Welsh Ministers, down to general power of direction, the power of making grants and employing staff. All of that is subject to control by Ministers. So, I am not quite clear what you intend the relationship between the commissioner and Ministers to be. Given that you can give directions to the commissioner and that the commissioner must comply with them, is it your intention for the commissioner to be genuinely independent or is the commissioner really a functionary of Ministers in most of the activity that he or she undertakes? **Michael German:** Fy mhryder i yw nad wyf yn deall yn iawn o'r ddeddfwriaeth o'm blaen a ydyw'r comisiynydd yn berson annibynnol ai peidio. Os edrychwch ar y ddeddfwriaeth, fe welwch bod adrannau 10, 11, 15, 63, 66 a 97 oll yn cynnwys cyfarwyddiadau ar bwerau Gweinidogion Cymru, hyd at bŵer cyffredinol i roi cyfarwyddyd, pŵer rhoi grantiau a chyflogi staff. Mae'r cyfan hwnnw yn ddarostyngedig i reolaeth y Gweinidogion. Felly, nid wyf yn gwbl glir ynglŷn â'r math o berthynas yr ydych yn bwriadu i'r comisiynydd a'r Gweinidogion ei chael. Gan eich bod yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i'r comisiynydd a bod yn rhaid i'r comisiynydd gydymffurfio â hwy, a ydych yn bwriadu i'r comisiynydd fod yn gwbl annibynnol neu a ydyw'r comisiynydd yn swyddog i'r Gweinidogion ym mwyafrif y gweithgarwch y mae ef neu hi yn ymgymryd ag ef?

[40] **Alun Ffred Jones:** As I understand it, the relationship between the Welsh language commissioner and the Government is similar to that of other commissioners who have been appointed in Wales. They are intended to be independent and can be critical of the Government, if they so wish. There is a clear statement in the proposed Measure that Welsh Ministers must take due regard of any **Alun Ffred Jones:** Caf ar ddeall bod y berthynas rhwng y comisiynydd iaith a'r Llywodraeth yn debyg i'r berthynas gyda'r comisiynwyr eraill sydd wedi'u penodi yng Nghymru. Bwriedir iddynt fod yn annibynnol ac yn feiriadol o'r Llywodraeth, os dymunir. Ceir datganiad clir yn y Mesur arfaethedig bod rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw dyladwy i unrhyw gyngor a roddir gan y

advice offered by the commissioner, which suggests that the commissioner has wide-ranging powers. The proposed Measure sets out a clear role for the commissioner to promote and facilitate the use of the Welsh language and to promote equality between English and Welsh. There will be a clear and public expectation on the commissioner to perform and achieve these aims and duties placed on him or her in relation to the standards and enforcement system, which will require the commissioner to act impartially and independently.

[41] **Michael German:** If you have a model, as you have just described to us, of the commissioner's role that is similar to other commissioners. Could you tell us which is the closest model? Is it the older persons' commissioner, the children's commissioner, the public service ombudsman or the auditor general? Which of these is the closest model to the one that you are seeking in this legislation?

[42] **Rhodri Morgan:** Or is it the Metropolitan Police commissioner?

[43] **Alun Ffred Jones:** I could not possibly comment on the police commissioner. Certainly, the language commissioner stands alongside the other two commissioners. The role is quite distinct from that of the ombudsman, for example, because the commissioner is also involved in policy making.

[44] **Michael German:** If it is closer to the auditor general's role rather than the—

[45] **Alun Ffred Jones:** No, it is not. I did not say that. I said that it was closer to the commissioner—

[46] **Michael German:** So, closer to the role of the commissioners for older or younger people.

[47] **Alun Ffred Jones:** That is how I understand it, yes.

[48] **Michael German:** I would like to look at the appointment process. Many of us were involved in the process of appointing the older persons' commissioner. That was an

comisiynydd, sydd yn awgrymu bod gan y comisiynydd bwerau eang. Mae'r Mesur arfaethedig yn gosod rôl glir i'r comisiynydd i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ac i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd disgwyliad clir a chyhoeddus i'r comisiynydd ymgymryd a chyflawni'r amcanion a'r dyletswyddau a fydd yn ddisgwyliedig ganddo neu ganddi mewn perthynas â'r system gorfodi safonau, a fydd yn gofyn i'r comisiynydd weithredu yn amhleidiol ac yn annibynnol.

Michael German: Os oes gennych fodel, fel yr ydych newydd ei ddisgrifio, o rôl y comisiynydd sydd yn debyg i gomisiynwyr eraill, a fedrwch ddweud wrthym pa fodel yw'r un agosaf? Ai'r comisiynydd dros bobl hŷn, y comisiynydd plant, yr ombwdsmon gwasanaethau cyhoeddus neu'r archwilydd cyffredinol ydyw? Pa un o'r rhain yw'r model agosaf at yr un yr ydych yn ei geisio yn y ddeddfwriaeth hon?

Rhodri Morgan: Ynteu comisiynydd heddlu Llundain ydyw?

Alun Ffred Jones: Ni allwn fentro gwneud sylwadau ar gomisiynydd yr heddlu. Yn sicr, saif y comisiynydd iaith wrth ochr y ddau gomisiynydd arall. Mae'r rôl yn eithaf gwahanol i rôl yr ombwdsmon, er enghraifft, gan fod y comisiynydd hefyd yn ymwneud â gwneud polisiau.

Michael German: Os ydyw'n agosach at rôl yr archwilydd cyffredinol na'r—

Alun Ffred Jones: Na; nid felly y mae. Ni ddywedais hynny. Dywedais ei fod yn agosach at y comisiynydd—

Michael German: Mae'n agosach felly at rôl y comisiynydd dros bobl hŷn neu bobl ifanc.

Alun Ffred Jones: Dyna sut y gwelaf i bethau.

Michael German: Hoffwn drafod y broses benodi. Bu llawer ohonom yn ymwneud â'r broses o benodi'r comisiynydd dros bobl hŷn. Gwnaed y penodiad hwnnw drwy

appointment made by recommendation to the Minister, but in which the Assembly was closely involved. The children's commissioner is also appointed by the National Assembly for Wales. Why, then, have you decided that the Ministers will appoint the commissioner, rather than using the wider process? While you are answering that, perhaps you could also explain why, despite the fact that the commissioner will be a policeman of what the Welsh Assembly Government does, you are allowing the policeman to be appointed by you in order to manage your own affairs.

[49] **Alun Ffred Jones:** I am not sure whether your description is correct in relation to the work that the commissioner would do with regard to the Welsh language. However, as I understand it, it is consistent with the appointment of the Children's Commissioner for Wales and the Older People's Commissioner for Wales. The proposed Measure contains a provision in paragraph 3(1) of Schedule 1 to allow the First Minister to take the views of the Assembly—an Assembly committee or Assembly Members—into account when appointing the commissioner. However, if there are specific suggestions in this area, then I am more than willing to listen to them.

[50] **Michael German:** I would like to come back to that second point, that the commissioner will have a role in monitoring the duties placed upon the Welsh Assembly Government. Is it genuinely independent if the First Minister appoints the person who will police their activities?

[51] **Alun Ffred Jones:** I thought that that is what generally happens in democracies, that those who are democratically elected then appoint other people to undertake certain roles.

[52] **Michael German:** That would be the National Assembly for Wales, would it not? Those who are democratically elected are in the National Assembly for Wales.

[53] **Alun Ffred Jones:** I thought that

argymhelliad i'r Gweinidog, ond bu'r Cynulliad â rhan agos iawn yn y broses. Penodir y comisiynydd plant hefyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Pam, felly, ydych chi wedi penderfynu mai'r Gweinidogion a fydd yn penodi'r comisiynydd, yn hytrach na defnyddio'r broses ehangach? Tra eich bod yn ateb y cwestiwn hwnnw, efallai y gallech hefyd egluro pam, er gwaethaf y ffaith y bydd y comisiynydd yn plismona'r hyn a wna Llywodraeth Cynulliad Cymru, eich bod yn caniatáu i'r sawl sy'n plismona gael ei benodi gennych er mwyn rheoli eich materion eich hunain.

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn siŵr a ydyw eich disgrifiad yn gywir o safbwynt y gwaith y byddai'r comisiynydd yn ei wneud o ran yr iaith Gymraeg. Fodd bynnag, caf ar ddeall ei fod yn gyson â phenodiad Comisiynydd Plant Cymru a'r Comisiynydd dros Bobl Hŷn yng Nghymru. Mae'r Mesur arfaethedig yn cynnwys darpariaeth ym mharagraff 3(1) o Atodlen 1 i ganiatáu i'r Prif Weinidog ystyried barn y Cynulliad, boed yn bwyllgor yn y Cynulliad neu Aelodau'r Cynulliad, wrth benodi'r comisiynydd. Fodd bynnag, os gwneir awgrymiadau penodol yn y maes hwn, byddaf yn fwy na pharod i wrando arnynt.

Michael German: Hoffwn ddychwelyd at yr ail bwynt ynglŷn â rhoi rôl i'r comisiynydd i fonitro'r dyletswyddau a roddir i Lywodraeth Cynulliad Cymru. A ydyw'n wirioneddol annibynnol os mai'r Prif Weinidog sydd yn penodi'r person a fydd yn plismona gweithredoedd Llywodraeth Cynulliad Cymru?

Alun Ffred Jones: Dyna'r oeddwn yn meddwl a oedd yn digwydd fel arfer mewn democratiaethau, sef bod y rheiny a etholir yn ddemocrataidd wedyn yn penodi pobl eraill i ymgymryd â swyddogaethau penodol.

Michael German: Onid Cynulliad Cenedlaethol Cymru fyddai'n gwneud hynny? Mae'r rheiny sydd wedi'u hethol yn ddemocrataidd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.

Alun Ffred Jones: Yr oeddwn yn credu bod

everyone here was democratically elected. There is provision for the views of the Assembly in general to be taken into account. However, as I said, if there are specific suggestions in this area that the committee thinks would improve matters and make the position of the commissioner stronger or more independent, I am more than happy to listen to them. However, in a sense, the fact that the First Minister appoints the commissioner means that he or she is clearly and unambiguously accountable.

[54] **Dr Jones:** It is also the National Assembly that would, by affirmative procedure, approve the standards that would apply and impose duties on the Welsh Ministers. Part of the idea is to ensure that the standards are sufficiently clear and that what the Welsh Ministers are meant to do under those standards is clear. That would help with any enforcement procedure, making it easier for the commissioner to judge whether the Welsh Ministers have complied with standards as compared with enforcement procedures associated with Welsh language schemes to date.

[55] **Rhodri Morgan:** Hoffwn ofyn cwestiynau am swyddogaethau'r comisiynydd. A gredwch fod elfen o wrthdaro rhwng rhai o'r swyddogaethau a dyletswyddau gwahanol, sef hybu a hwyluso defnydd o'r iaith Gymraeg, ond hefyd hybu cydraddoldeb rhwng y Saesneg a'r Gymraeg? Mae'n dibynnu ar y cyswllt, ond gallai rhywun ddadlau bod hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn golygu eich bod, mewn rhai cyd-destunau yng Nghymru, yn gorfod helpu'r iaith Saesneg i fod yn gydradd â'r iaith Gymraeg, mewn llefydd fel Pen Llŷn er enghraifft.

10.50 a.m.

[56] Sut yr ydych yn disgwyl i'r comisiynydd hybu'r cydraddoldeb hwn? Gallaf ddeall y sefyllfa gyffredinol yng Nghymru—mae'r Gymraeg yn israddol o'i chymharu â'r Saesneg—ond mewn ardaloedd lle mae'r mwyafrif yn siarad Cymraeg, ai at y comisiynydd y byddai rhywun yn troi pe bai'n meddwl bod pobl uniaith Saesneg yn cael eu trin yn israddol?

pawb yma wedi eu hethol yn ddemocrataidd. Ceir darpariaeth ar gyfer ystyried safbwyntiau'r Cynulliad yn gyffredinol. Fodd bynnag, fel y dywedais, os oes awgrymiadau penodol yn y maes hwn y cred y pwyllgor y byddant yn gwella materion a gwneud swydd y comisiynydd yn gryfach neu'n fwy annibynnol, byddwn yn fwy na hapus i wrando arnynt. Fodd bynnag, mewn ffordd, mae'r ffaith fod y Prif Weinidog yn penodi'r comisiynydd yn golygu ei fod yn atebol, a hynny'n bendant ac yn ddiamwys.

Dr Jones: Y Cynulliad Cenedlaethol hefyd fyddai, drwy'r weithdrefn gadarnhaol, yn cymeradwyo'r safonau perthnasol ac yn gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru. Rhan o'r syniad yw sicrhau bod y safonau yn ddigon clir a bod yr hyn y dylai Gweinidogion Cymru ei wneud o dan y safonau hynny hefyd yn glir. Byddai hynny o gymorth gydag unrhyw achos gorfodi, gan ei gwneud yn haws i'r comisiynydd farnu a yw Gweinidogion Cymru wedi cydymffurfio â'r safonau, o'u cymharu â'r gweithdrefnau gorfodi a fu'n gysylltiedig â chynlluniau iaith hyd yma.

Rhodri Morgan: I want to ask some questions about the duties of the commissioner. Do you believe that there is an element of conflict between some of the duties and responsibilities, namely promoting and facilitating the use of the Welsh language, but also promoting equality between the English and Welsh languages? It depends on the context, but one could argue that promoting equality between the Welsh and English languages means that, in some contexts in Wales, you would have to support the English language to be equal to the Welsh language, in places such as the Llŷn peninsula, for example.

How do you see the commissioner promoting this equality? I can understand the general situation in Wales, in which Welsh has a lower status compared with English, but where the language of the majority is Welsh, would people turn to the commissioner if they deemed monoglot English speakers to have been treated unfairly?

[57] **Alun Ffred Jones:** Nid fel hynny yr wyf fi wedi deall rôl y comisiynydd. Yn sicr, nid yw'r Mesur arfaethedig yn effeithio o gwbl ar statws y Saesneg yng Nghymru. Efallai y gall Huw ddatblygu'r pwynt hwnnw.

Alun Ffred Jones: That is not my understanding of the commissioner's role. Certainly, the proposed Measure has no impact at all on the status of the English language in Wales. Perhaps Huw can develop that point.

[58] Wrth sôn am hybu a hyrwyddo, nid ydych yn sôn am agweddau meddalach y gwaith y mae bwrdd yr iaith yn ei wneud. Yr ydych yn sôn am y berthynas rhwng cydraddoldeb y ddwy iaith.

When referring to promoting and facilitating the language, you are not referring to the softer aspects of the Welsh Language Board's work. You are talking about the relationship between the two languages' equality.

[59] **Rhodri Morgan:** Y broblem yw hwyluso neu hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae pawb yn derbyn bod y sefyllfa gyffredinol fel y mae, gydag 80 y cant o'r bobl yn uniaith Saesneg ac 20 y cant yn siarad y Gymraeg a'r Saesneg. Felly, mae pawb yn derbyn mai'r Gymraeg yw'r iaith leiafrifol a chanddi broblemau, ac nid y Saesneg. Fodd bynnag, gallwch gael enghreifftiau i'r gwrthwyneb. Felly, a ddylem gymryd bod adran 3(1)(c), sef hybu cydraddoldeb rhwng y ddwy iaith, yn golygu pe bai gan y comisiynydd ddyletswyddau yn y maes hwn hefyd y gallai teuluoedd uniaith Saesneg ym mhen Llŷn droi at y comisiynydd i'w helpu, yn yr un ffordd ag y byddai'n ddyletswydd arno i helpu pobl sy'n meddwl bod yr iaith Gymraeg yn cael cam neu bod eisiau help arni yn yr ardaloedd lle mae'r Saesneg yn gryf iawn a'r Gymraeg yn wan?

Rhodri Morgan: The problem is promoting or facilitating equality between English and Welsh. Everyone accepts that the current situation is as it is, in that 80 per cent of the population are monoglot English speakers and 20 per cent speak both Welsh and English. So, everyone accepts that Welsh is a minority language that has problems, and that English is not. However, you could have examples to the contrary. Therefore, are we to read section 3(1)(c), which concerns promoting equality between the two languages, to mean that if the commissioner were to have duties in this field, too, families on the Llŷn peninsula who speak only English could turn to the commissioner for help, just as he or she would be duty bound to assist people who perceive the Welsh language to have been wronged or to be in need of help in those areas where English is dominant and Welsh is weak?

[60] **Alun Ffred Jones:** Cyn imi ofyn i Huw gyfrannu, credaf ei bod yn berffaith glir o'r Mesur arfaethedig mai prif ffrwd gwaith y comisiynydd hwn yw hyrwyddo a hybu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg oherwydd canfyddiad digon amlwg nad yw gwasanaethau Cymraeg ar gael i ddefnyddwyr y Gymraeg.

Alun Ffred Jones: Before I ask Huw to comment, I believe that it is perfectly clear from the proposed Measure that the main thrust of the commissioner's work is in promoting and facilitating the use of Welsh because of the clear perception that Welsh-language services are unavailable to users of Welsh.

[61] **Rhodri Morgan:** Mae pawb yn derbyn hynny.

Rhodri Morgan: Everybody accepts that.

[62] **Alun Ffred Jones:** Felly, nid oes dwywaith mai dyna'r brif ffrwd.

Alun Ffred Jones: So, there is no doubt that that is the greater part.

[63] Am yr enghraifft benodol yr ydych yn ei rhoi, gofynnaf i Huw ateb.

As for the specific example that you gave, I will ask Huw to respond.

[64] **Dr Jones:** Mae'r sefyllfa hon yn

Dr Jones: This situation is similar to that

debyg i'r sefyllfa y mae bwrdd yr iaith yn ei hwynebu yn awr. Mae gan y bwrdd y dasg o hybu a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal mewn cynlluniau iaith. Mae enghreifftiau o'r bwrdd yn cymeradwyo cynlluniau iaith cynghorau cymuned ym mhen Llŷn ac ati lle, yn hanesyddol, mae'r cynghorau hynny wedi cyhoeddi cofnodion eu cyfarfodydd yn uniaith Gymraeg. Mae'r bwrdd yn awr yn gorfod rhoi dyletswydd arnynt o dan eu cynlluniau iaith i'w cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r bwrdd wedi ymdopi ag ef, ac nid yw wedi arwain at broblemau arwyddocaol neu fawr iddo. Efallai y cafwyd ymateb braidd yn negyddol oddi wrth y cynghorau sy'n gorfod defnyddio'r Saesneg am y tro cyntaf, ond mae'r egwyddor ar waith o dan Ddeddf 1993 iddynt drin y ddwy iaith yn gyfartal lle y bo hynny'n rhesymol ymarferol.

[65] **Rhodri Morgan:** Gofynnaf y cwestiwn mewn ffordd arall, felly. A ydych yn meddwl y bydd geiriad adran 3(1)(c) i hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhoi'r comisiynydd mewn sefyllfa anodd dros ben? Onid oes geiriad arall ar gael a fyddai'n ei gwneud yn gliriach lle mae ei swyddogaethau yn stopio?

[66] **Alun Ffred Jones:** Os ydych yn credu bod amwysedd, gallwn edrych ar y geiriad. Nid oeddwn wedi meddwl am rôl y comisiynydd fel yr ydych wedi'i disgrifio am fod byrdwn y Mesur arfaethedig yn mynd i gyfeiriad cwbl wahanol. O safbwynt yr enghreifftiau penodol y mae Huw wedi cyfeirio atynt, gallwn ystyried eich pwyntiau ymhellach.

[67] **Dr Jones:** Un rhan o'r Mesur arfaethedig lle y mae'n sicr y bydd yn rhaid i'r comisiynydd wneud hynny yw pan fydd yn cynnig cyngor i Weinidogion ynglŷn â safonau o ran darparu gwasanaeth a safonau o ran datblygu polisi. Mae'r rheini yn sôn am yr angen i gyrff ystyried trin y ddwy iaith ar sail gyfartal, sydd eto yn debyg i'r hyn y mae'n rhaid i fwrdd yr iaith ei wneud gyda chynlluniau iaith.

[68] **Gareth Jones:** Ar y pwynt hwnnw, Weinidog, yr ydych wedi cyfeirio at y ffaith bod statws cyfartal rhwng y Gymraeg a'r

which the language board is currently facing. The board has the task of promoting and facilitating the use of Welsh and ensuring that the Welsh and English languages are treated on the basis of equality through Welsh language schemes. There are examples of the board approving community councils' language schemes in the Llŷn peninsula and elsewhere, where, historically, those councils have published the minutes of their meetings solely in Welsh. The board now has to place a duty on them under their language schemes to publish them in Welsh and English. The board has coped with that, and it has not led to any significant or major problems for it. There may have been a rather negative response from the councils who have to use English for the first time, but the principle has been implemented under the 1993 Act for them to treat both languages equally where that is reasonably practicable.

Rhodri Morgan: I will ask the question in another way, then. Do you think that the wording of section 3(1)(c) to promote equality between Welsh and English places the commissioner in an extremely difficult position? Is there not another wording that would express more clearly where his or her duties stop?

Alun Ffred Jones: If you think that there is ambiguity there, we can look at the wording. I did not think of the commissioner's role in the way that you have described because the thrust of the proposed Measure goes in a completely different direction. Given the examples that Huw referred to, we can consider your points further.

Dr Jones: One part of the proposed Measure under which the commissioner will definitely have to do that is when he or she offers advice to Ministers on the standards in relation to the provision of services and policy development. They talk about the need for bodies to consider treating the languages on the basis of equality, which is also similar to what the language board has to do with language schemes.

Gareth Jones: On that point, Minister, you referred to the fact that English and Welsh have equal status, but you also referred to the

Saesneg, ond yr ydych hefyd wedi cyfeirio at y ffaith bod canfyddiad—sy'n ganfyddiad yr wyf yn sicr yn ei rannu—nad yw pethau cystal o ran y Gymraeg ag y maent o ran y Saesneg. Lle yr ydych yn cyfeirio at swyddogaethau yn y Mesur arfaethedig er mwyn hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg, mae hynny yn golygu i ryw raddau eich bod yn cadw at y cydraddoldeb sy'n bodoli eisoes. Nid wyf yn gweld y cydraddoldeb hwnnw ar waith yn ymarferol yng Nghymru, a byddwn yn ystyried y byddai'n gywirach cynnwys cymal yn y Mesur arfaethedig i'r perwyl bod y comisiynydd yn anelu neu'n ymgyrchu at gydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Yr ydych wedi cydnabod bod angen atgyfnerthu'r iaith Gymraeg, ond mae'n gamarweiniol dweud bod y sefyllfa fel ag y mae yn dderbyniol tra bod gwaith dygn i'w wneud mewn gwirionedd gan y comisiynydd a pha bynnag system fydd yn dod yn sgil y Mesur arfaethedig i atgyfnerthu'r Gymraeg yn ein cymdeithas a'n cymunedau yng Nghymru.

[69] **Alun Ffred Jones:** Byddwn yn tybio bod geiriad y Mesur arfaethedig yn gwneud yr hyn yr ydych yn sôn amdano, sef hybu cydraddoldeb rhwng y Gymraeg a'r Saesneg. Mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud darpariaeth bellach, gan ei bod yn cyfeirio'n benodol at sut mae cyflawni hynny drwy osod safonau i gyrff neu unigolion sydd o fewn cwrpas y Mesur arfaethedig. Felly, mae'r Mesur arfaethedig yn gwneud rhywbeth penodol o ran hyrwyddo statws a defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd gwbl ymarferol, fel y dylai deddfwriaeth ei wneud, yn hytrach na gwneud unrhyw ddatganiadau cyffredinol. Felly, byddwn yn tybio bod y Mesur arfaethedig yn gwneud yr hyn yr ydych yn gofyn iddo ei wneud.

[70] **Gareth Jones:** Felly, mae'r cymal i hybu'r Gymraeg yn ochri'n bositif tuag at hyrwyddo'r Gymraeg, ydy?

[71] **Alun Ffred Jones:** Dyna raison d'être y comisiynydd, sef bod yn lladmerydd ar ran y Gymraeg, neu reolwr bencampwr. Mae'r geiriau hyn yn cael eu defnyddio yn y Mesur arfaethedig neu yn y memorandwm esboniadol.

fact that there is a perception—which I certainly share—that things are not as good for the Welsh language as for the English language. Where you refer to the functions in the proposed Measure to promote equality between the English and Welsh languages, that means that, to some extent, you are adhering to the equality that already exists. I do not see that equality in practice in Wales, and I would consider it to be more accurate to insert a clause in the proposed Measure stating that the commissioner aims or campaigns for equality between English and Welsh. You acknowledge that the Welsh language needs to be strengthened, but it is misleading to say that the situation as it stands is acceptable when, in reality, hard work needs to be done by the commissioner and whatever system will be in place as a result of the proposed Measure to strengthen the Welsh language in our society and communities in Wales.

Alun Ffred Jones: I assume that the wording in the proposed Measure does what you say, namely promote equality between English and Welsh. The proposed Measure makes further provision, as it specifically refers to how that can be achieved by setting standards for bodies or individuals who come within the scope of the proposed Measure. Therefore, the proposed Measure specifically promotes the status and use of Welsh in a totally practical way, as legislation should, rather than make any general statements. Therefore, I assume that the proposed Measure does what you ask it to do.

Gareth Jones: So, the clause to promote Welsh steers positively towards promoting Welsh, does it?

Alun Ffred Jones: That is the commissioner's raison d'être, namely to be an ambassador for the Welsh language, or a manager-champion. These words are used in the proposed Measure or in the explanatory memorandum.

[72] **Lorraine Barrett:** Minister, section 6 deals with inquires and provides the commissioner with the power to conduct inquiries into any matter relating to his or her functions. Can you explain how the inquiry process provided for under section 6 and Schedule 2 of the proposed Measure differ from the existing arrangements for the Welsh Language Board to conduct investigations?

Lorraine Barrett: Weinidog, mae adran 6 yn ymdrin ag ymchwiliadau ac yn rhoi'r pŵer i'r comisiynydd gynnal ymchwiliadau i unrhyw fater sy'n gysylltiedig â'i swyddogaethau. A allwch esbonio sut y mae'r broses ymchwilio a ddarperir o dan adran 6 ac Atodlen 2 i'r Mesur arfaethedig yn wahanol i'r trefniadau presennol sy'n galluogi bwrdd yr iaith i gynnal ymchwiliadau?

[73] **Alun Ffred Jones:** The inquiries as set out in the proposed Measure are separate to any existing processes under the Welsh Language Act 1993, and separate to the commissioner's investigations into alleged non-compliance with standards or the alleged interference with the freedom to use Welsh as set out in the proposed Measure. These are very wide-ranging powers to conduct inquiries into matters related to the Welsh language, such as the use of Welsh by the private sector. It is a very general and broad power.

Alun Ffred Jones: Mae'r ymchwiliadau a nodir yn y Mesur arfaethedig yn wahanol i unrhyw brosesau presennol o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993, ac yn wahanol i ymchwiliadau'r comisiynydd i achosion honedig o ddiffyg cydymffurfio â safonau neu ymyrraeth honedig â'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg fel a geir yn y Mesur arfaethedig. Ceir yma ystod eang iawn o bwerau i gynnal ymchwiliadau i faterion sy'n berthnasol i'r Gymraeg, fel y defnydd o'r Gymraeg gan y sector preifat. Mae'r pŵer yn llydan a chyffredinol iawn.

[74] **Lorraine Barrett:** Does it enhance what the Welsh Language Board can currently investigate? Does it go much wider than its current remit?

Lorraine Barrett: A yw'n ychwanegu at yr hyn y gall Fwrdd yr Iaith Gymraeg ymchwilio iddo ar hyn o bryd? A yw'n fwy eang na'i gylch gwaith presennol?

[75] **Alun Ffred Jones:** Yes, and it is separate from the investigations into alleged non-compliance, which is a separate process within the proposed Measure.

Alun Ffred Jones: Ydy, ac mae'n wahanol i'r ymchwiliadau i achosion o ddiffyg cydymffurfio honedig, sydd yn broses ar wahân yn y Mesur arfaethedig.

[76] **Dr Jones:** The board's powers to investigate are into non-compliance with language schemes. The proposed Measure sets out ways for the commissioner to investigate non-compliance with duties imposed via standards. Inquiries are a totally separate issue. As the Minister said, if the commissioner wants to inquire into the use of Welsh by the private sector or the use of Welsh by young people, the proposed Measure sets out the formal process to do that, to ensure that the terms of reference are understood by everyone, that people have an opportunity to submit evidence. It shows another aspect in which the commissioner will be independent of Government, in that he or she will be able to inquire into anything that he or she considers appropriate.

Dr Jones: Mae gan y bwrdd bwerau i ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio â chynlluniau iaith. Mae'r Mesur arfaethedig yn nodi ffyrdd y gall y comisiynydd ymchwilio i achosion o ddiffyg cydymffurfio â dyletswyddau a osodir gan safonau. Mae ymchwiliadau yn fater hollol wahanol. Fel y dywedodd y Gweinidog, os yw'r comisiynydd am ymchwilio i'r defnydd o'r Gymraeg gan y sector cyhoeddus neu'r defnydd o'r Gymraeg gan bobl ifanc, mae'r Mesur arfaethedig yn nodi'r broses ffurfiol er mwyn gwneud hynny, i sicrhau bod pawb yn deall y cylch gorchwyl a bod gan bobl gyfle i gyflwyno tystiolaeth. Mae'n dangos agwedd arall lle bydd y comisiynydd yn annibynnol o'r Llywodraeth, gan y gall ef neu hi ymchwilio i unrhyw beth y mae ef neu hi yn ei ystyried yn briodol.

11.00 a.m.

[77] **Lorraine Barrett:** Looking at section 7, which deals with judicial review and other legal proceedings, can you provide an example of how the Welsh language commissioner might become involved in judicial review or legal proceedings as provided for in section 7 of the proposed Measure?

Lorraine Barrett: O edrych ar adran 7, sy'n ymdrin ag adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill, a allwch roi enghraifft o sut y gallai'r comisiynydd iaith ddod yn rhan o adolygiad barnwrol neu achosion cyfreithiol, fel y darperir ar ei gyfer yn adran 7 o'r Mesur arfaethedig?

[78] **Alun Ffred Jones:** At this juncture, I will pass the question on.

Alun Ffred Jones: Yn y cyswllt hwn, yr wyf yn pasio'r cwestiwn ymlaen.

[79] **Dr Jones:** An example could be an organisation that has not had statutory duties imposed upon it by the new standards system, but which may take a policy decision where it is apparent or some people might allege that, in taking the policy decision, it has ignored evidence about the impact of the policy on the Welsh language. People might have submitted evidence in consultation but the organisation has ridden roughshod over that and ignored it. In that sort of circumstance, the commissioner could bring a judicial review case against that organisation on the grounds of maladministration.

Dr Jones: Un enghraifft fyddai sefydliad sydd heb ddyletswyddau statudol wedi'u gosod arno gan y system safonau newydd, ond a allai wneud penderfyniad polisi sy'n rhoi'r argraff ei fod wedi anwybyddu tystiolaeth am effaith y polisi ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad hwnnw, neu lle gallai rhai pobl honni hynny. Gallai pobl fod wedi cyflwyno tystiolaeth i ymgynghoriad ond mae'r sefydliad wedi sathru ar y dystiolaeth honno ac wedi ei diystyru. Mewn achos o'r fath, gallai'r comisiynydd ddwyn adolygiad barnwrol yn erbyn y sefydliad ar sail camweinyddu.

[80] **Lorraine Barrett:** We can pursue that legal aspect over the coming weeks, Chair, because it opens up a whole new ball game for me. Thank you, that explanation was helpful.

Lorraine Barrett: Gallwn ddilyn yr agwedd gyfreithiol honno dros yr wythnosau i ddod, Gadeirydd, gan ei bod yn agor rhywbeth hollol newydd i mi. Diolch, yr oedd yr esboniad hwnnw'n ddefnyddiol.

[81] **Dr Jones:** It is worth noting that the commissioner could intervene in judicial proceedings brought by another person if they thought that it was appropriate to help out.

Dr Jones: Mae'n werth nodi y gallai'r comisiynydd ymyrryd mewn achosion barnwrol sy'n cael eu dwyn gan berson arall, os oedd yn credu ei fod yn briodol i roi cymorth.

[82] **Val Lloyd:** That is helpful.

Val Lloyd: Mae hynny'n ddefnyddiol.

[83] **Gareth Jones:** Yr wyf yn eich cyfeirio at adrannau 8 a 9, sy'n ymwneud â chymorth cyfreithiol a chostau, Weinidog. Mae adran 8 yn rhoi pŵer i'r comisiynydd ddarparu cymorth ar gyfer unigolyn os yw'r person hwnnw'n barti i achos cyfreithiol gwirioneddol neu bosibl yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cymorth hwnnw, yn ôl y Mesur arfaethedig, yn cynnwys cyngor cyfreithiol, cynrychiolaeth gyfreithiol a chyfleusterau i ddatrys anghydfod, ond nid yw'n gyfyngedig iddynt. Cyfeiria hefyd at

Gareth Jones: I refer you to sections 8 and 9, which relate to legal assistance and costs, Minister. Section 8 provides the commissioner with the power to provide an individual with assistance if that person is a party to actual or possible legal proceedings in England and Wales. That assistance, for the purposes of the proposed Measure, includes, but is not restricted to, legal advice, legal representation and facilities for the settlement of a dispute. It also refers to circumstances in which the commissioner

amgylchiadau lle bydd y comisiynydd wedi helpu unigolyn o dan adran 8 a phan gaiff yr unigolyn hwnnw hawl i gael rhywfaint o'r costau a dalwyd yn sgîl yr achos, neu'r costau i gyd, yn ôl. Felly, mae cymorth cyfreithiol a chostau wedi eu cynnwys yn adran 8 a 9. A allwch chi roi enghraifft o sefyllfaoedd lle byddai comisiynydd y Gymraeg yn rhoi cymorth cyfreithiol, fel y darperir ar ei gyfer o dan adran 8 y Mesur arfaethedig?

[84] **Alun Ffred Jones:** Dengys yr hyn yr ydych wedi'i ddisgrifio yn glir cymaint o rym fydd gan y comisiynydd mewn gwirionedd, oherwydd bydd ganddo fe neu ganddi hi yr hawl i roi cymorth i unigolyn heb ofyn caniatâd unrhyw Weinidog na neb. Unwaith eto, caiff yr elfen annibynnol hon ei thanlinellu. Os ydych yn sôn am enghreifftiau penodol, gallech chi ddychmygu unigolyn sy'n teimlo ei fod wedi cael cam mewn sefyllfa waith oherwydd rhyw fater ieithyddol, a bod y comisiynydd yn digwydd credu bod hwnnw'n achos lle mae'r unigolyn angen cymorth cyfreithiol neu gymorth arall, mewn tribiwnlys efallai, ac felly dyna enghraifft o sefyllfa y gallai ef neu hi gynnig y math hwnnw o gymorth ynddi.

[85] **Gareth Jones:** Mae adran 11 yn ymwneud â staff, ac mae adran 11(6) yn datgan

[86] 'Rhaid i'r Comisiynydd gael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer—

[87] '(a) nifer y staff y caniateir eu penodi,

[88] '(b) telerau ac amodau gwasanaeth y staff'.

[89] Pam mae angen cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru ar nifer y staff a gyflogir gan y comisiynydd a thelerau ac amodau eu swyddi?

[90] **Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn credu bod yn rhaid i'r comisiynydd gael caniatâd i benodi nifer benodol o staff, ond mae gan y Gweinidog yr hawl i osod uchafswm. Nid ydych eisiau gweld corff fel hwn yn dechrau gwario arian yn ddiangen, gan adeiladu

will have assisted an individual under section 8 and that individual becomes entitled to some or all of the costs incurred during the proceedings. Therefore, legal assistance and costs are contained in sections 8 and 9. Can you provide an example of the kind of circumstances in which the Welsh language commissioner would provide legal assistance, as provided for under section 8 of the proposed Measure?

Alun Ffred Jones: What you have described shows clearly how much power the commissioner will have in reality, because he or she will have the right to provide assistance to an individual without asking for the permission of a Minister or anyone else. Once again, this element of independence is underlined. If you are talking about specific examples, one could imagine an individual who feels that they have been unfairly treated in the workplace because of a certain linguistic issue, and the commissioner could believe that the individual needs legal assistance or other support, perhaps in a tribunal, and so that is an example of a situation in which he or she could provide that kind of assistance.

Gareth Jones: Section 11 pertains to staff, and section 11(6) states

'The Commissioner must obtain the approval of the Welsh Ministers for—

'(a) the number of staff that may be appointed,

'(b) the terms and conditions of service of the staff'.

Why is it necessary to obtain the approval of the Welsh Ministers on the number of staff employed by the commissioner and their terms and conditions?

Alun Ffred Jones: I do not believe that the commissioner has to obtain permission to appoint a specific number of staff, but the Minister does have the right to set a maximum number. You do not want to see a body such as this starting to spend money

ymerodraeth a thalu cyflogau afresymol, fel sydd wedi digwydd mewn rhai cyrff a ariannwyd neu a sefydlwyd gan y Llywodraeth. Felly, rhyw fath o system o *checks and balances* yw honno.

[91] **Gareth Jones:** Yn olaf gennyf i, trof at adran 15, sydd yn ymwneud â phwerau Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd. Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddiadau i'r comisiynydd ac yn gosod dyletswydd ar y comisiynydd i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath. O dan ba amgylchiadau y rhagwelwch y bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi cyfarwyddiadau i'r comisiynydd?

[92] **Alun Ffred Jones:** Bydd hynny'n digwydd yn anaml iawn. Mae'r math hwn o gymal yn berthnasol i'r comisiynwyr eraill hefyd. Mae'n angenrheidiol fel rhan o'r *checks and balances*. Mae holl lwybr y Mesur arfaethedig o safbwynt annibyniaeth y comisiynydd yn hollol glir: bydd yn annibynnol ar y Llywodraeth, ond hefyd yn rhan o'r broses ddemocrataidd. Fodd bynnag, mewn achosion anarferol iawn, megis pe bai pryder ynglŷn â pherfformiad y comisiynydd, byddai'n rhaid cael y math hwnnw o bŵer.

[93] **Gareth Jones:** Fodd bynnag, derbyniwn, fel y dywedwch, fod yr annibyniaeth honno wedi'i gwarchod a'i hamlinellu'n gwbl glir.

[94] **Dr Jones:** Mae'n bŵer sy'n gynwysedig yn Neddf 1993, yng nghyswllt bwrdd yr iaith. Nid yw'r pŵer hwnnw wedi'i ddefnyddio erioed, fel y deallaf, yng nghyswllt gwaith y bwrdd. Fel y dywedodd y Gweinidog, rhaid defnyddio'r pŵer yn ofalus; nid ydyw yno i alluogi Gweinidogion i ymyrryd yng ngwaith beunyddiol y comisiynydd. Os yw Gweinidogion yn defnyddio'r pŵer mewn ffordd amhriodol, gellir dwyn adolygiad barnwrol yn eu herbyn. Felly, rhaid ei ddefnyddio'n ofalus mewn achlysuron arbennig, os o gwbl.

[95] **Rhodri Morgan:** Hoffwn ofyn ychydig o gwestiynau i'r Gweinidog ynglŷn â'r panel cynghori. Pa fath o bobl a pha fath o sgiliau y byddech yn ei ddisgwyl ar y panel cynghori, a hynny yng nghyswllt y math o

unnecessarily, building an empire and paying unreasonable salaries, as has happened in some organisations that were funded or established by the Government. So, this is a kind of system of checks and balances.

Gareth Jones: Finally from me, I wish to turn to section 15, pertaining to the Welsh Ministers' powers of direction. This section provides the Welsh Ministers with the power to give directions to the commissioner and places a duty on the commissioner to comply with any such directions. In which circumstances do you envisage the Welsh Ministers giving directions to the commissioner?

Alun Ffred Jones: That will happen most infrequently. This kind of clause is relevant to other commissioners as well. It is necessary as part of the checks and balances. The whole thrust of the proposed Measure as regards the independence of the commissioner is totally clear: he or she will be independent of Government, but will also be a part of the democratic process. However, in exceptionally rare cases, for instance if there was concern about the performance of the commissioner, there should be that kind of power.

Gareth Jones: However, we accept, as you say, that that independence is safeguarded and outlined completely unambiguously.

Dr Jones: It is a power that is contained within the 1993 Act, in the context of the language board. That power has never been used, as far as I understand, in relation to the work of the board. As the Minister said, it is a power that is to be used carefully; it is not there to enable the Ministers to interfere in the daily work of the commissioner. If Ministers use the power in an inappropriate manner, a judicial review could be brought against them. Therefore, it must be used carefully in specific cases, if at all.

Rhodri Morgan: I would like to ask a few questions to the Minister on the advisory panel. What type of people and what type of skills would you expect on the advisory panel, in relation to the types of skills that the

sgiliau y bydd eu hangen ar y comisiynydd? Ni fydd y comisiynydd yn rhyw fath o archangel, felly cymeraf yn ganiataol y byddech eisiau i'r panel cynghori i wneud yn iawn am unrhyw wallau neu fylchau yng ngwybodaeth neu sgiliau'r comisiynydd. Beth yw'r broses o feddwl y tu ôl i'r syniad o banel cynghori?

[96] **Alun Ffred Jones:** Mae'r comisiynydd yn berson gyda phwerau eithaf eang ac mewn sefyllfa o rym. Fodd bynnag, y syniad oedd y byddai'n ddoeth cael panel cynghori na fyddai'n ymyrryd â gwaith dyddiol y comisiynydd. Nid oes gan y panel cynghori unrhyw rôl weithredol yng ngwaith dyddiol y comisiynydd. Eto i gyd, disgwyliem i'r personau hyn feddu ar y profiadau proffesiynol angenrheidiol er mwyn gallu cynghori'r comisiynydd, os yw'n dymuno cael cyngor, a hefyd i fod yn rhyw fath o garreg ateb pe bai'r comisiynydd eisiau eu defnyddio felly. Bydd hefyd yn rhan o'r *checks and balances*. Felly, os bydd y comisiynydd yn dechrau ymddwyn yn afresymol mewn unrhyw ffordd, mae gennyh gorff sydd naill ai'n gallu ceisio tymheru'r ymddygiad hwnnw neu—

[97] **Rhodri Morgan:** Gall hefyd ddweud 'Gan bwyll' weithiau felly.

[98] **Alun Ffred Jones:** Mae hynny'n gywir, neu gall ddweud 'Ewch yn gynt'.

[99] **Rhodri Morgan:** Mae yna drefniant 4-2-4 neu 4-5-1 ar *C'mon Midffild!*—a byddai rhai pobl yn dweud wrthyh i ymosod ac eraill yn dweud i bwylo ac amddiffyn mwy. Dyna natur y berthynas rhwng y panel cynghori a'r Gweinidog—gwneud yn iawn am y bylchau yn y sgiliau, oherwydd mae'n afresymol disgwyl i'r comisiynydd feddu ar yr holl sgiliau angenrheidiol. Bydd rhai pobl yn argymhell pwylo ac eraill yn argymhell cyflymu.

[100] **Alun Ffred Jones:** Ni fyddwn wedi gallu dweud hynny'n well fy hun. Mae'n bwysig pwysleisio nad ail fersiwn y bwrdd yw'r panel cynghori, ond pobl sydd yno i gynghori yn unig ac nid i gymryd rhan weithredol yng ngweithgaredd y comisiynydd.

commissioner will need? The commissioner will not be some kind of archangel, so I take it that you would want the advisory panel to make up for any defects or gaps in the information or skills of the commissioner. What are the thought processes behind the idea of an advisory panel?

Alun Ffred Jones: The commissioner is a person with quite broad powers and is in a position of power. However, the idea was that it would be wise to have an advisory panel that would not interfere with the daily work of the commissioner. The advisory panel has no executive role to play in the daily work of the commissioner. However, I would expect these people to have the necessary professional experiences to be able to advise the commissioner, if he or she so wished, and also to be a sounding board if the commissioner required it. It is also a part of the checks and balances in the system. Therefore, if the commissioner started to behave unreasonably in any way, you would have a body in place that could either temper that behaviour or—

Rhodri Morgan: So, it can also say 'Slow down' sometimes.

Alun Ffred Jones: That is right, or it can say 'Speed up'.

Rhodri Morgan: We see a 4-2-4 or 4-5-2 formation on *C'mon Midffild!*—some people would tell you to go on the attack and others would say to slow down and be more defensive. That is the nature of the relationship between the advisory panel and the Minister—to make up for some gaps in the skills, because it would be unreasonable to expect the commissioner to have all the necessary skills. Some people would advise caution while others would advise speeding up.

Alun Ffred Jones: I could not have put it better myself. It is important to emphasise that the advisory panel is not the board mark II, but people who are there solely to advise and not to take an active part in the commissioner's work.

11.10 a.m.

[101] **Dr Jones:** Mae'n gyfle da hefyd i ddod a syniadau ffres a gwaed newydd i dîm y comisiynydd. Rhaid penodi'r tîm am gyfnod o dair blynedd; mae'n gyfle, felly, i gyflwyno syniadau newydd.

Dr Jones: It is also an opportunity to bring fresh ideas and new blood into the commissioner's team. The team is appointed for a period of three years; it is an opportunity, therefore, to bring in new ideas.

[102] **Michael German:** I would like to look at the shift from schemes to standards. Legislation Committee No. 5, which looked at the LCO, took evidence from Colin Williams about schemes. According to his evidence, it certainly seemed the case that other countries—Finland and Canada are two that come to mind—had been very complimentary about having schemes. Can you explain why you have decided to move away from schemes and towards standards instead?

Michael German: Hoffwn edrych ar y newid o gynlluniau i safonau. Cymerodd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5, a ystyriodd yr LCO, dystiolaeth gan Colin Williams ynghylch y cynlluniau. Yn ôl ei dystiolaeth, ymddangosai bod gwledydd eraill—a dwy sy'n dod i fy meddwl yw'r Ffindir a Chanada—wedi bod yn canmol y syniad o gael cynlluniau. A allwch esbonio pam yr ydych wedi penderfynu symud i ffwrdd o gynlluniau tuag at safonau?

[103] **Alun Ffred Jones:** Welsh language schemes have proven to be very beneficial and effective in improving the services available to Welsh-language customers, but we need to move on. We need greater clarity in terms of service provision and to ensure a level playing field in certain sectors. Language schemes are individual schemes, and though many of them have similar structures and patterns, they are not always consistent, even within the same sectors. Therefore, the purpose of setting standards is to provide greater clarity for the organisations and for the customers, and a level playing field. This is, however, a development from the Welsh language schemes, and no doubt we will come to that in a minute. The standards will grow out of the requirements already contained in the Welsh language schemes. In addition, in establishing the different kinds of standards, there is nothing stopping a body—or even the commissioner requiring a body—to have a scheme that shows how it intends to develop its own internal procedures.

Alun Ffred Jones: Mae cynlluniau iaith wedi profi'n effeithiol ac yn fanteisiol iawn wrth wella'r gwasanaethau sydd ar gael i gwsmeriaid Cymraeg eu hiaith, ond mae angen inni symud ymlaen. Mae angen mwy o eglurder arnom i sicrhau sefyllfa deg mewn rhai sectorau. Cynlluniau unigol yw cynlluniau iaith, ac er bod gan nifer ohonynt strwythurau a phatrymau tebyg, nid ydynt wastad yn gyson, hyd yn oed o fewn yr un sectorau. Diben gosod safonau, felly, yw rhoi mwy o eglurder i'r sefydliadau a'r cwsmeriaid, a chreu sefyllfa deg. Mae hyn, fodd bynnag, yn ddatblygiad o'r cynlluniau iaith, a deawn at hynny yn y man, mae'n siŵr. Bydd y safonau yn tyfu allan o'r gofynion sydd eisoes yn y cynlluniau iaith. Yn ogystal, wrth sefydlu'r gwahanol fathau o safonau, nid oes dim i rwystro corff rhag cael cynllun sy'n dangos sut y mae'n bwriadu datblygu ei weithdrefnau mewnol ei hun—nid oes dim i rwystro'r comisiynydd rhag gofyn bod corff yn gwneud hyn chwaith.

[104] **Michael German:** The explanatory memorandum that we have says that the Welsh Language Board found the schemes to be resource-intensive and a bureaucratic burden. I can understand why they had become resource-intensive, given that they were individual schemes for individual

Michael German: Mae'r memorandwm esboniadol sydd gennym yn dweud i Fwrdd yr Iaith Gymraeg weld bod y cynlluniau yn galw am lawer o adnoddau a'u bod yn faich biwrocraidd. Gallaf ddeall pam eu bod yn galw am lawer o adnoddau, o ystyried mai cynlluniau unigol ar gyfer sefydliadau unigol

organisations, but why are they a bureaucratic burden?

[105] **Alun Ffred Jones:** I am not sure whether the words 'bureaucratic burden' are there. They are certainly resource-intensive. I understand that there are about 550 schemes in existence, and the task of ensuring that the content reflects developments can be bureaucratic for all concerned. They are also supposed to be renewed individually every three years; that is a lengthy process, and we contend that having standards set and agreed within sectors will be simpler and will provide basic clarity.

[106] **Michael German:** How about speed? Will they be quicker?

[107] **Alun Ffred Jones:** Yes, they will eventually be more flexible, after the initial burst of very intensive and hard work. It must be understood that the standards are a development of the Welsh language schemes. They are not something else, or something different. They will be a development of something that is already required very often within the schemes.

[108] **Dr Jones:** It is fair to point out that in the conclusion to Professor Colin Williams's publication, 'From Act to Action', he says that the results of his investigation indicate that bilingual services have improved dramatically, but that there has been a lack of consistency in quality, which prevents the public from receiving an equitable service. He also says that the flexibility of the system of agreeing schemes is to be welcomed, but that the element of compliance needs to be strengthened in relation to the board's statutory remit. We hope that the work that we have done in developing the new standards system brings greater consistency and clarity, and enables better enforcement of schemes. So, it builds on what Colin Williams found in his research.

[109] **Alun Ffred Jones:** The experience of the Welsh Language Board in developing Welsh language schemes will also be invaluable, as Huw said, not only in setting standards, but in helping bodies to achieve those standards.

oeddent, ond pam ydynt yn faich biwrocraidd?

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn siŵr a yw'r geiriau 'baich biwrocraidd' wedi'u cynnwys. Yn sicr, maent yn galw am lawer o adnoddau. Deallaf fod 550 cynllun yn bodoli, a gall y dasg o sicrhau bod y cynnwys yn adlewyrchu datblygiadau fod yn fiwrocraidd i bawb sy'n rhan o'r broses. Yn ogystal, maent i fod i gael eu hadnewyddu yn unigol bob tair blynedd; mae hynny'n broses hir, a'n dadl ni yw y bydd gosod a chytuno ar safonau o fewn sectorau yn symlach ac y bydd yn sylfaenol eglur.

Michael German: Beth am gyflymder? A fyddant yn gyflymach?

Alun Ffred Jones: Byddant. Yn y pen draw, byddant yn fwy hyblyg, ar ôl y pwl cyntaf o waith dwys a chaled. Rhaid deall bod y safonau yn ddatblygiad o'r cynlluniau iaith Gymraeg. Nid ydynt yn wahanol, neu'n rhywbeth arall. Byddant yn ddatblygiad o rywbeth sydd eisoes yn ofynnol, yn aml, o fewn y cynlluniau.

Dr Jones: Mae'n deg nodi bod yr Athro Colin Williams, yng nghasgliad ei gyfrol 'From Act to Action', yn dweud bod canlyniadau ei ymchwiliad yn dangos bod gwasanaethau dwyieithog wedi gwella'n sylweddol, ond y bu diffyg cysondeb o ran ansawdd, sy'n rhwystro'r cyhoedd rhag cael gwasanaeth teg. Dywed hefyd fod hyblygrwydd y system cynlluniau gwyrdd i'w groesawu, ond bod angen cryfhau'r elfen o gydymffurfio mewn perthynas â chylch gwaith statudol y bwrdd. Gobeithiwn fod y gwaith yr ydym wedi'i wneud wrth ddatblygu'r system safonau newydd yn dod â mwy o gysondeb ac eglurder, a'i fod yn galluogi gorfodaeth well o'r cynlluniau. Felly, mae'n adeiladu ar yr hyn a welodd Colin Williams yn ei waith ymchwil.

Alun Ffred Jones: Bydd profiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ddatblygu cynlluniau iaith hefyd yn amhrisiadwy, fel y dywedodd Huw, nid yn unig wrth osod safonau, ond wrth gynorthwyo cyrff i gyflawni'r safonau hynny.

[110] **Michael German:** We will take that up with Colin Williams when we take evidence from him, to see where he feels this is going.

Michael German: Awn ar ôl y pwynt hwnnw â Colin Williams pan gymerwn dystiolaeth ganddo, i weld ar hyd pa drywydd y mae'n teimlo bod hyn yn mynd.

[111] I want to move on to look at the model for your standards regime, under Part 4. You have a regime here that is new to Wales, but is there a precedent for it anywhere else in the world? Did you use a model, perhaps the Equality Bill, for your approach to this section of the legislation?

Symudaf ymlaen i edrych ar y model ar gyfer eich cyfundrefn safonau, o dan Ran 4. Mae gennych gyfundrefn sy'n newydd i Gymru, ond a oes cynsail iddi yn unrhyw le arall yn y byd? A ddefnyddiasoch fodel, efallai Mesur Cydraddoldeb y DU, yn eich ymdriniaeth â'r adran hon o'r ddeddfwriaeth?

[112] **Alun Ffred Jones:** I am not an expert on this, but I know that regulations have been made in Ireland on signage, recorded announcements and the stationery used by public bodies. In Canada, the Official Languages Act 1969 places duties on organisations to provide services in both official languages. The situation is different in almost every country that we looked at. The standard system will allow for Welsh language duties to be developed that are tailored to the situation here in Wales.

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn arbenigwr ar hyn, ond gwn fod rheoliadau wedi'u gwneud yn Iwerddon ar gyfer arwyddion, cyhoeddiadau wedi'u recordio, ac offer swyddfa a ddefnyddir gan gyrff cyhoeddus. Yng Nghanada, mae Deddf Ieithoedd Swyddogol 1969 yn gosod dyletswyddau ar sefydliadau i ddarparu gwasanaethau yn y ddwy iaith swyddogol. Mae'r sefyllfa yn wahanol ym mhob gwlad a ystyriwyd gennym, bron. Bydd y system safonau yn caniatáu datblygu dyletswyddau iaith Gymraeg sydd wedi eu teilwra i'r sefyllfa yma yng Nghymru.

[113] **Michael German:** Did you use any models from equalities legislation for these standards?

Michael German: A ddefnyddiwyd unrhyw fodolau o ddeddfwriaeth gydraddoldeb ar gyfer y safonau hyn?

[114] **Alun Ffred Jones:** Not that I am aware of.

Alun Ffred Jones: Ddim hyd y gwn i.

[115] **Dr Jones:** The thrust of equalities legislation for other strands is that you start from the point of view of preventing discrimination, so you must not discriminate against people because of disability, age or whatever. This proposed Measure aims to impose duties to provide services in Welsh, so that is a different requirement.

Dr Jones: Ergyd deddfwriaeth gydraddoldeb mewn meysydd eraill yw eich bod yn dechrau o safbwynt atal gwahaniaethu, felly ni ddylech wahaniaethu yn erbyn pobl oherwydd anabledd, oedran ac yn y blaen. Bwriad y Mesur arfaethedig hwn yw gosod dyletswyddau i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg, felly gofyniad gwahanol ydyw.

[116] **Michael German:** I will not go back to one of the very first questions that was asked of you, about status issues, but that is an interesting and helpful answer. Could you tell me about the views of the Welsh Language Board at the time, when you were approaching this? It said that it was resource-intensive and a bureaucratic burden.

Michael German: Nid af yn ôl i un o'r cwestiynau cyntaf a ofynnwyd ichi, ynghylch materion statws, ond mae hynny'n ateb diddorol a defnyddiol. A allech sôn wrthyf am deimladau bwrdd yr iaith ar y pryd, pan oeddech yn dechrau ymdrin â hyn? Dywedir ei fod yn galw am lawer o adnoddau a'i fod yn faich biwrocraidd.

[117] **Alun Ffred Jones:** I was not quoting

Alun Ffred Jones: Nid oeddwn yn dyfynnu

the Welsh Language Board there.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn y fan honno.

[118] **Michael German:** It is in the explanatory memorandum:

Michael German: Mae'n ddyfyniad o'r memorandwm esboniadol:

[119] 'the Board's own experience since 1993 in developing, negotiating and agreeing schemes on a case by case basis has revealed the process to be resource-intensive...[and] a bureaucratic burden'.

'mae profiad y Bwrdd ers 1993 o ran datblygu, trafod a chytuno ar gynlluniau fesul achos wedi bod yn broses sy'n galw am lawer o adnoddau...[ac] yn faich biwrocraidd.'

[120] **Alun Ffred Jones:** Yes, but that is not a quote from the Welsh Language Board, is it?

Alun Ffred Jones: Ydy, ond nid dyfyniad gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yw hynny, onid e?

[121] **Michael German:** It says that that is what the Welsh Language Board has reported. Only you can tell me whether your memorandum is accurate in that respect.

Michael German: Dywed mai dyna a ddywedodd Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Chi yn unig all ddweud wrthyf a yw eich memorandwm esboniadol yn gywir yn hynny o beth.

[122] **Val Lloyd:** It is paragraph 3.3, in case anyone is looking for it.

Val Lloyd: Am baragraff 3.3 yr ydym yn sôn, rhag ofn bod rhywun yn chwilio amdano.

[123] **Dr Jones:** It does not say that the board has reported that.

Dr Jones: Nid yw'n dweud bod y bwrdd wedi dweud hynny.

[124] **Alun Ffred Jones:** I just do not want to be accused of quoting the board when I am not. The process is resource-intensive, and I stand by that.

Alun Ffred Jones: Nid wyf am gael fy nghyhuddo o ddyfynnu'r bwrdd pan nad wyf yn gwneud hynny. Mae'r broses yn galw am lawer o adnoddau, ac yr wyf yn glynu wrth hynny.

[125] **Michael German:** I accept that, but the question was more about the bureaucratic burden. I wanted to ask how this regime of standards might be less of a bureaucratic burden than the previous regime.

Michael German: Derbyniaf hynny, ond yr oedd y cwestiwn am y baich biwrocraidd yn fwy na hynny. Yr oeddwn am ofyn sut y gallai'r gyfundrefn hon o safonau fod yn llai o faich biwrocraidd na'r gyfundrefn flaenorol.

[126] **Alun Ffred Jones:** When the standards are in place across various sectors, it will be a simpler process. If a new body comes into being, you do not have to create a new scheme for it. It will be able to adopt the standards that apply to that particular sector. That is one example of how it will be simplified. Moreover, there will be no need to renew whole schemes, although some bodies may have aims and targets to increase their standards or to add standards to those that are applied.

Alun Ffred Jones: Pan fydd y safonau wedi'u gosod ar draws y gwahanol sectorau, bydd y broses yn fwy syml. Os daw corff newydd i fod, ni raid creu cynllun newydd iddo. Gall fabwysiadu'r safonau sy'n berthnasol i'r sector arbennig hwnnw. Mae hwn yn un enghraifft o sut y caiff ei symleiddio. Hefyd, ni fydd angen adnewyddu cynlluniau cyfan, er efallai y bydd gan rai cyrff amcanion a thargedau i gynyddu eu safonau neu ychwanegu safonau at y rhai sydd wedi'u gosod.

[127] **Dr Jones:** Currently, the board has to

Dr Jones: Ar hyn o bryd, rhaid i'r bwrdd

negotiate every scheme with every single body. That is a process that can take many months, a year or sometimes more. It also generally returns to amend those schemes every three years or so, so there is that continuous process focused on drawing up the schemes and, arguably, that detracts from improving the delivery of the service.

[128] **Brynle Williams:** I want to move onto the timing of implementation. When will the first transition to the standards system from the language scheme system take place?

[129] **Alun Ffred Jones:** That lies with the commissioner, and I would not like to impose any targets. However, the sooner the commissioner is in place, the sooner the process can begin.

11.20 a.m.

[130] **Brynle Williams:** How will it be decided which bodies will be transferred first? Will that be the commissioner's decision as well?

[131] **Alun Ffred Jones:** The easy answer is 'yes'. It is up to the commissioner, but I expect that the commissioner might start in those areas that already have very developed schemes, those that are mature in their approach and that have greater contact with the public. However, it will be up to the commissioner. He or she will be independent.

[132] **Brynle Williams:** Has work commenced in the Welsh Assembly Government to draw up the regulations that define the standards? When are the regulations likely to be made?

[133] **Alun Ffred Jones:** No, the regulations will be made after the commissioner undertakes his or her standards investigations.

[134] **Brynle Williams:** Diolch yn fawr iawn am eich atebion.

[135] **Lorraine Barrett:** Section 25 states

drafod pob cynllun â phob corff unigol. Gall y broses hon gymryd sawl mis, blwyddyn, neu weithiau fwy. Yn gyffredinol, mae hefyd yn dychwelyd i ddiwygio'r cynlluniau hynny oddeutu bob tair blynedd, felly ceir proses barhaus sydd wedi'i ffocysu ar lunio'r cynlluniau ac y gellid dadlau sy'n tynnu oddi wrth wella sut y caiff y gwasanaeth ei ddarparu.

Brynle Williams: Hoffwn symud at bryd y caiff y system ei rhoi ar waith. Pryd fydd y system safonau yn dechrau disodli'r system cynlluniau iaith am y tro cyntaf?

Alun Ffred Jones: Mae hynny dan ofal y comisiynydd, ac ni hoffwn osod targedau. Fodd bynnag, unwaith y bydd y comisiynydd yn ei le, gall y broses ddechrau, a gorau po gynted.

Brynle Williams: Sut y byddwch yn penderfynu pa gyrff fydd y rhai cyntaf i drosglwyddo o'r naill system i'r llall? Ai penderfyniad y comisiynydd fydd hynny hefyd?

Alun Ffred Jones: Yr ateb hawdd yw 'ie'. Penderfyniad y comisiynydd fydd hi, ond yr wyf yn disgwyl i'r comisiynydd ddechrau yn y meysydd hynny sydd eisoes â chynlluniau wedi'u datblygu'n helaeth, y rheiny sy'n ymdrin â'r mater yn aeddfed ac sydd â mwy o gyswllt â'r cyhoedd. Fodd bynnag, penderfyniad y comisiynydd fydd hi. Bydd ef neu hi yn annibynnol.

Brynle Williams: A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dechrau ar y gwaith o lunio'r rheoliadau a fydd yn diffinio'r safonau? Pryd mae'n debygol y caiff y rheoliadau eu gwneud?

Alun Ffred Jones: Na, caiff y rheoliadau eu gwneud wedi i'r comisiynydd gynnal ei ymchwiliadau i'r safonau.

Brynle Williams: Thank you for your answers.

Lorraine Barrett: Mae adran 25 yn galluogi

that the Welsh Ministers may, by regulation, specify service delivery, policy-making, operational, promotion and record-keeping standards. There is a whole list there. Why have you decided to specify those particular groups of standards?

[136] **Alun Ffred Jones:** Those five groups of standards reflect the content of current Welsh language schemes, as well as suggestions made by the Welsh Language Board and language officers from other organisations. Different groups are needed to reflect the different purpose and nature of the standards. Different standards are needed for different types of organisations. Not all of these will apply to all the sectors that come under the proposed Measure.

[137] **Dr Jones:** We do not have the competence to apply certain standards to some organisations. That reflects the competence in the National Assembly for Wales (Legislative Competence) (Welsh Language) Order 2010. For example, persons providing services to the public under an agreement or in accordance with arrangements with a public authority can have duties imposed on them only in relation to those services. You will see that later in the Schedules to the proposed Measure, that, for those persons, you can impose duties only in relation to service delivery and record-keeping standards.

[138] **Alun Ffred Jones:** Can you provide an example of the sort of situation that you are talking about, to make it clearer?

[139] **Dr Jones:** Yes. A private sector company that wins a tender from a local authority to provide a specific service, such as the care of the elderly, could have duties imposed on it only in relation to service delivery and record-keeping standards. So, the duties would relate only to those services that it was contracted to provide—the care of the elderly in this example—and not duties to consider the Welsh language in developing its policies, or duties relating to operational standards, such as to increase the use of the Welsh language in its workplace. It needs to reflect the competence provided by the LCO.

Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, i bennu safonau sy'n ymwneud â chyflenwi gwasanaethau, gweithredu, hybu a chadw cofnodion. Mae rhestr gyfan yno. Pam ydych wedi penderfynu grwpio'r safonau yn y fath fodd?

Alun Ffred Jones: Mae'r pum grŵp o safonau yn adlewyrchu cynnwys y cynlluniau iaith presennol, yn ogystal ag awgrymiadau a wnaed gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg a swyddogion iaith o sefydliadau eraill. Mae angen gwahanol grwpiau i adlewyrchu'r ffaith bod pwrpas a natur y safonau yn wahanol. Mae angen gwahanol safonau ar wahanol fathau o sefydliadau. Ni fydd pob un o'r rhain yn gymwys i bob sector a ddaw o dan y Mesur arfaethedig.

Dr Jones: Nid yw'r cymhwysedd gennym i osod rhai safonau ar rai sefydliadau. Mae hynny'n adlewyrchu'r cymhwysedd yng Ngorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (yr Iaith Gymraeg) 2010. Er enghraifft, gellir gosod dyletswyddau ar bersonau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus, mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny yn unig. Gwelwch hynny yn ddiweddarach yn Atodlenni'r Mesur arfaethedig, y gallwch osod dyletswyddau ar y personau hynny mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion yn unig.

Alun Ffred Jones: A allwch roi enghraifft o'r math o sefyllfa yr ydych yn sôn amdani, er mwyn egluro'r sefyllfa?

Dr Jones: Gallaf. Dim ond mewn perthynas â safonau cyflenwi gwasanaethau a chadw cofnodion y gellid gosod dyletswyddau ar gwmni sector preifat sy'n ennill tendr gan awdurdod lleol i gyflenwi gwasanaeth penodol, fel gofal i'r henoed. Felly, dim ond o ran y gwasanaethau hynny y cafodd contract i'w cyflenwi y byddai'r dyletswyddau yn berthnasol—gofal i'r henoed yn yr achos hwn—ac nid i ddyletswyddau i ystyried y Gymraeg wrth ddatblygu ei bolisiau, neu ddyletswyddau sy'n ymwneud â safonau gweithredu, fel cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Rhaid iddo adlewyrchu'r

cymhwysedd a ddarperir gan yr LCO.

[140] **Lorraine Barrett:** Thanks for that. The example is helpful, although it raises a few more questions. Why do those standards need to be grouped in that way?

Lorraine Barrett: Diolch am hynny. Mae'r enghraifft yn ddefnyddiol er ei fod yn codi ychydig o gwestiynau ychwanegol. Pahan mae angen grwpio'r safonau hynny yn y modd hwnnw?

[141] **Alun Ffred Jones:** It is necessary to make it clear that these are different types of standards to cover different types of activities. Huw just gave a specific example. If it would be helpful to the committee, perhaps we could provide a few other examples to clarify this.

Alun Ffred Jones: Mae'n angenrheidiol er mwyn sicrhau eglurder; mae rhain yn fathau gwahanol o safonau er mwyn ymdrin â gwahanol mathau o weithgareddau. Rhoddodd Huw enghraifft benodol. Pe byddai o gymorth i'r pwyllgor, efallai y gallem ddarparu ychydig o enghreifftiau ychwanegol er mwyn egluro hyn.

[142] **Dr Jones:** Standards on promotion are an interesting group. The proposed Measure explains that those could be imposed only on the Welsh Assembly Government and local authorities because those are organisations that could play a role in promoting the use of the Welsh language more widely.

Dr Jones: Mae'r safonau hybu yn grŵp diddorol iawn. Esbonia'r Mesur arfaethedig mai dim ond ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r awdurdodau lleol y gellid eu gosod oherwydd maent yn sefydliadau a fyddai'n gallu chwarae rôl yn hyrwyddo defnydd ehangach o'r iaith Gymraeg.

[143] **Lorraine Barrett:** I was going to ask whether you could give an example of what the standards might look like in practice, so the Minister's offer would be helpful. Perhaps we could have note on that.

Lorraine Barrett: Yr oeddwn yn mynd i ofyn a fyddai'n bosibl i chi roi enghraifft o sut y gallai'r safonau edrych yn ymarferol, felly, yn hynny o beth, byddai cynnig y Gweinidog o gymorth. Efallai y cawn nodyn ar hynny.

[144] **Alun Ffred Jones:** What the standards might look like is a matter for the commissioner. We were referring to examples of the types of standards that apply to different types of bodies. It is obvious from the Irish example that signage is a simple one. Correspondence is another simple one, although it may not be quite as obvious or simple.

Alun Ffred Jones: Mater i'r comisiynydd fydd sut y bydd y safonau edrych. Yr oeddem yn cyfeirio at enghreifftiau o'r mathau o safonau sy'n berthnasol i fathau gwahanol o gyrrff. O edrych ar yr enghraifft Wyddelig, mae'n amlwg bod arwyddion yn un syml. Mae gohebiaeth yn un syml arall, er efallai nad yw mor amlwg neu syml.

[145] **Gareth Jones:** Pan soniwch am safonau hybu a chyfeirio at yr enghreifftiau amlwg megis awdurdodau lleol a'r Llywodraeth neu'r Cynulliad, mae hynny'n golygu hybu'r Gymraeg drwy bob elfen o weithgaredd y cyrff hynny, hyd at ysgolion unigol, er enghraifft.

Gareth Jones: When you talk about the standards of promotion and refer to the obvious examples such as local authorities and the Government or the Assembly, that means promoting the Welsh language through every aspect of activity by those bodies, all the way down to individual schools, for example.

[146] **Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn siŵr am yr enghraifft benodol a roesoch imi, ond yn sicr, mae gan y comisiynydd yr hawl i

Alun Ffred Jones: I am not sure about the specific example that you have given, but certainly, the commissioner has the right to

geisio hybu'r Gymraeg drwy holl wasanaethau y cyrff hynny.

seek to promote the Welsh language through all the services provided by those bodies.

[147] **Dr Jones:** Yn hytrach na'r safonau o ran cynnig gwasanaeth, mae hynny'n edrych ar y gwasanaethau y mae'r corff yn eu cynnig beth bynnag, er enghraifft llythyru â phobl, cynnal cyfarfodydd cyhoeddus, ac yn y blaen, a hynny er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael lle dilys yno. Mae'r safonau hyrwyddo yn gofyn i gorff gamu'n ôl, edrych ar y gymuned y mae'n ei gwasanaethu a meddwl yn fwy creadigol am yr hyn y gall ei wneud i hybu a hyrwyddo'r defnydd a wneir o'r Gymraeg yn y gymuned.

Dr Jones: Rather than the standards on service delivery, it looks at the services that the organisation offers in any case, such as correspondence with people, holding public meetings, and so on, and that is to ensure that the Welsh language is given a valid status in that regard. The promotion standards require the body to take a step back, look at the community that it serves, and think more creatively about what it can do to promote the use of the Welsh language in that community.

[148] **Gareth Jones:** Gwelaf rinweddau yn y safonau hybu. Mae'r ffaith eu bod yn safonau yn golygu y cânt eu plismona hefyd. Ceir yr hybu a'r monitro, neu'r rheoli, yn y Mesur arfaethedig.

Gareth Jones: I see virtues of the promotion standards. The fact that they are standards means that they will also be policed. The proposed Measure includes promotion and monitoring, or regulation.

[149] **Alun Ffred Jones:** Drwy'r safonau, gall y comisiynydd sicrhau bod y gwasanaethau hynny'n cael eu gwarchod a'u cynnig. Y safonau sy'n gosod yr hicyn o ran yr hyn y gall y cyhoedd ei ddisgwyl. Os na chynigir y gwasanaethau hynny yn unol â diffiniad y safon, mae gan y comisiynydd bob math o hawliau i ymdrin â chwyn neu ddiffyg, a gall hynny amrywio o godi'r ffôn i weld beth a oedd yn digwydd neu hyd yn oed, mewn rhai achosion—

Alun Ffred Jones: Through the standards, the commissioner can ensure that those services are safeguarded and delivered. It is the standards that set the baseline for what the public can expect. If those services are not delivered according to the definition of the standard, the commissioner has all manner of rights to deal with a complaint or weakness, and that can range from picking up the phone to find out what was going on or even, in some cases—

[150] **Gareth Jones:** Mae'n amlwg, felly, fod y safonau yn arwain at eu hunain.

Gareth Jones: It is evident, therefore, that the standards lead to themselves.

[151] **Alun Ffred Jones:** Dyna'r cam mawr ymlaen yma: mae'r safon yn gallu arwain y comisiynydd i blismona, mewn ffordd—er nad wyf yn hoff o'r gair 'plismona'.

Alun Ffred Jones: That is the major step forward here: the standard can then lead to policing by the commissioner, in a way—although I do not like the word 'policing'.

[152] **Gareth Jones:** Beth am 'monitro'?

Gareth Jones: What about 'monitoring'?

[153] **Alun Ffred Jones:** Ie, monitro i sicrhau bod pobl yn gweithredu yn unol â'r safonau.

Alun Ffred Jones: Yes, to monitor to ensure that people are complying with the standards.

[154] **Dr Jones:** Mae'n bwysig cofio hefyd y gall y comisiynydd gyhoeddi cod arfer da i helpu cyrff i ddeall ac ystyried sut i wireddu'r safon. Nid yw cod arfer da yn gosod dyletswydd ar gorff, ond mae'n ei helpu i ystyried yr hyn y gellir ei wneud er mwyn

Dr Jones: It is also important to remember that the commissioner can publish a code of practice to help bodies to understand and to consider how to achieve a standard. A code of practice does not bind an organisation, but it helps it to consider what can be done in

ufuddhau i'r safon.

[155] **Rhodri Morgan:** Gan droi ar Atodlenni 5, 6, 7 ac 8—y rhestrau hir o'r cyrff, y personau ac ati—a allwch chi roi enghreifftiau inni o sut yr ydych chi'n rhagweld y dyletswyddau o ran y safonau yn cymhwyso, er enghraifft, i awdurdodau lleol mewn gwahanol rannau o Gymru, i fusnesau preifat, neu i Lywodraeth Cynulliad Cymru?

[156] **Alun Ffred Jones:** Pe baech chi'n troi at y busnesau preifat ac yn cymryd sector megis ynni er enghraifft, byddech yn gweld y byddai'n rhaid i'r safonau fod yn gyson ar draws sector o'r fath er mwyn sicrhau tegwch i bawb yn y maes. Dyna un o amcanion y Mesur arfaethedig, sef sicrhau'r safonau cyson hynny ar draws gwasanaeth er mwyn sicrhau bod y cwsmer yn gwybod, ble bynnag yr aiff, y caiff y gwasanaeth arbennig hwnnw yn Gymraeg.

[157] O safbwynt llywodraeth leol—ac nid wyf yn siŵr a oes rhywun yn camu i mewn i faes y comisiynydd—rhagwelir fod rhai safonau cyson sy'n gwbl greiddiol i wasanaeth cyhoeddus. Un enghraifft hawdd fyddai ateb llythyr yn yr iaith a ddefnyddir gan gwsmer yn yr ohebiaeth wreiddiol. Byddech yn disgwyl i bob awdurdod lleol gyrraedd y safon honno a glynu wrthi.

11.30 a.m.

[158] O safbwynt rhyngwyneb â'r cyhoedd, mae'n amlwg bod arferion gwahanol mewn gwahanol rannau o Gymru oherwydd natur ieithyddol yr ardaloedd hynny. Byddai rhywun efallai'n disgwyl amrywiaeth oherwydd hynny ac yn disgwyl y byddai'r comisiynydd yn gallu amrywio'r safonau, ac er y bydd ganddo restr o safonau sy'n berthnasol i lywodraeth leol, na fyddai'r safonau hynny'n gyson ym mhob ardal. Mae hwn yn faes anodd ac nid ydym wedi cyrraedd ei ben draw eto wrth drafod y safonau, ond byddai rhywun yn disgwyl y byddai gwahaniaeth felly rhwng ardaloedd o ran rhai o'r safonau.

[159] **Dr Jones:** Bydd y safonau'n arwain at fwy o gysondeb. Ni fyddant yn golygu y bydd pethau'n hollol gyson drwy'r amser, er

complying with the standard.

Rhodri Morgan: Turning to Schedules 5, 6, 7 and 8—the long lists of bodies, persons and so on—can you give us examples of how you anticipate the duties in relation to the standards applying, for example, to local authorities in different parts of Wales, to private businesses, or to the Welsh Assembly Government?

Alun Ffred Jones: If you were to turn to private business and take a sector such as energy for example, you would see that standards have to be consistent across such a sector to ensure fairness for all in that field. That is one of the aims of this proposed Measure, namely to ensure consistent standards across a service so that the customer knows that, wherever he or she goes, that particular service can be received in Welsh.

On local government—and I am not sure whether anyone is stepping into the field of the commissioner—one would anticipate that some consistent standards would be totally central to public services. A simple example would be to respond to a customer's letter in the language used in the original correspondence. You would expect every local authority to achieve that standard and to comply with it.

On public interaction, it is obvious that there are different practices in different parts of Wales due to the linguistic nature of those areas. One would expect variation as a result and would expect the commissioner to be able to vary the standards, and that although he will have a list of standards that are relevant to local authorities, that those standards will not be consistent in every area. This is a difficult area and we have not yet covered all relevant ground in the discussion of standards, but one would expect a difference of that sort between areas in terms of some of the standards.

Dr Jones: The standards will lead to more consistency. They will not mean that things will be completely consistent all the time, for

enghraifft, pe baech yn cymharu lleoedd fel Gwynedd a sir Fynwy. Rhaid i'r dyletswyddau yr ydych yn eu gosod ar gorffod fod yn rhesymol ac yn gymesur. Fel y dywedodd y Gweinidog, gyda llawer o weithgareddau fel gohebu, gosod arwyddion a chynhyrchu ffurflenni syml i'r cyhoedd, gallwch efallai ddisgwyl y byddai'r safonau'n gyson ar draws Cymru, ond o ran gwasanaethau wyneb yn wyneb, gallech ddisgwyl y byddai rhywfaint o amrywiaeth. Bydd y safonau hefyd yn gallu gosod rhyw fath o arweiniad i'r corff, gan ddweud, 'Yr ydych yn cyrraedd y safon hon yn awr ond yr ydym yn gobeithio, o fewn hyn a hyn o flynyddoedd, y byddwch wedi gallu gwella'r gwasanaeth yr ydych yn ei gynnig a chyrraedd safon uwch'.

[160] **Rhodri Morgan:** Mae pawb yn deall mai un peth y gallwch ei ddweud am Gymru sydd wastad yn wir yw nad oes gwastadedd yn unrhyw beth. Os yw'r egwyddor o anghysondeb yn gweithredu o ran llywodraeth leol, a fydd yn gweithredu hefyd o ran rhai busnesau, er enghraifft, Cownteri'r Swyddfa Bost Cyf? Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru ni fyddai'n afresymol i ddisgwyl fod gwasanaeth ar gael yn Gymraeg, ond mewn rhannau eraill o Gymru, byddai'r un math o fusnes yn bodoli, ond ni fyddai'n rhesymol i ddisgwyl gwasanaeth o'r un safon drwy gyfrwng y Gymraeg. Ni allwch gymharu Cas-gwent a Chaernarfon, er enghraifft.

[161] **Alun Ffred Jones:** Ar y maes penodol hwnnw, yr unig beth y gallaf ei ddweud yw mai mater i'r comisiynydd fydd hynny. Bydd y comisiynydd yn cynnal deialog â'r sector. Rhaid cofio y bydd y safonau hyn yn dod i'r Cynulliad i gael eu cadarnhau. Felly, bydd trafodaethau ar hyd y llinell honno ac yr wyf yn siŵr na fyddai'r Cynulliad yn cytuno i unrhyw beth sy'n afresymol. Mae'n werth cadw'r pwynt hwnnw mewn cof. Y comisiynydd sy'n pennu'r safonau ar ôl trafodaeth, ond wrth gwrs bydd rhaid iddynt ddod i'r Cynulliad i gael eu cadarnhau achos dyna fydd yn rhoi grym deddfwriaethol iddynt maes o law.

[162] **Rhodri Morgan:** A ydych yn gallu rhestru—efallai nid heddiw, ond yn ysgrifenedig—pa gyrff heb gynllun iaith a

example, if you were to compare places such as Gwynedd and Monmouthshire. The duties that you place on an organisation have to be reasonable and proportionate. As the Minister said, with many activities such as correspondence, signage and the production of simple forms for the public, you could perhaps expect the standards to be consistent across Wales, but in terms of services that are provided face to face, you could expect a certain amount of variance. The standards will also be able to give some sort of direction of travel to the organisation, saying, 'You are achieving this standard currently, but we hope that within x number of years, you will have been able to improve the services that you offer and achieve a higher standard'.

Rhodri Morgan: Everyone knows that one thing that you can say about Wales that is always true is that there is no consistency in anything. If the principle of inconsistency is in operation in relation to local authorities, will it also be in operation in relation to some businesses, for example, Post Office Counters Ltd? In some areas of Wales, it would not be unreasonable to expect a service to be available in Welsh, but in other parts of Wales, the same sort of business would exist, but it would not be reasonable to expect a service of the same standard in Welsh. You cannot compare Chepstow and Caernarfon, for example.

Alun Ffred Jones: On that specific issue, the only thing that I can say is that it will be a matter for the commissioner. The commissioner will conduct a dialogue with the sector. One should remember that these standards will come before the Assembly for ratification. So, there will be discussions along those lines and I am sure that the Assembly would not agree to anything that is unreasonable. It is worth bearing that point in mind. The commissioner sets the standards following discussion, but of course they will have to come before the Assembly for ratification, because that is what will give legal thrust to those standards.

Rhodri Morgan: Could you provide us with a list—maybe not today, but in writing—of organisations that do not have a language

heb ddyletswydd i greu cynllun iaith o dan y Ddeddf bresennol y byddech yn disgwyl y bydd gorfodaeth arnynt i gydymffurfio â'r safonau o dan y Mesur arfaethedig hwn?

scheme and that have no duty to create a language scheme under the current Act, but that you anticipate will be expected to comply with the standards imposed under this proposed Measure?

[163] **Alun Ffred Jones:** Nid wyf yn siŵr y gallaf ateb y cwestiwn hwnnw.

Alun Ffred Jones: I am not sure whether I can answer that question.

[164] **Rhodri Morgan:** Yr wyf yn eithaf hapus i gael ateb yn ysgrifenedig os yw'n ormod o faich i chi ei ateb heddiw.

Rhodri Morgan: I would be quite happy with a written answer if it is too onerous a question for you to answer today.

[165] **Dr Jones:** Gallaf roi gwybodaeth i chi ar y math o gyrff sydd wedi'u cynnwys yn yr LCO na ellir gosod dyletswydd arnynt yn awr i baratoi cynllun iaith, er enghraifft, y sector telathrebu a bysiau ac yn y blaen. O ran faint o gyrff yn gyffredinol sydd heb gynllun iaith y byddem yn disgwyl iddynt ufuddhau i'r safonau, gallwn ystyried y cwestiwn ond byddai'n dipyn o dasg i wybod yn union pwy sydd allan yna. Fodd bynnag, gallwn ystyried y cwestiwn.

Dr Jones: I can provide information on the types of organisations that are included in the that cannot currently have a duty placed on them to prepare a language scheme, for example, the telecoms sector and buses and so on. On how many organisations in general do not have a language scheme that we would expect to conform to the standards, we can consider the question, but it would be quite a task to know exactly who is out there. However, we can consider the question.

[166] **Alun Ffred Jones:** Yr wyf yn meddwl fy mod yn iawn i ddweud er bod corff efallai'n gorwedd o fewn cwrpawd y Mesur arfaethedig, nid oes rhaid i'r comisiynydd osod dyletswydd na safonau ar y corff hwnnw os yw'r comisiynydd yn penderfynu nad yw'n rhesymol i wneud hynny.

Alun Ffred Jones: I think that I am right to say that, although an organisation may lie within the scope of the proposed Measure, the commissioner does not have to place a duty or standards on that organisation if the commissioner decides that it is not reasonable to do so.

[167] **Val Lloyd:** I have some questions regarding Schedules. I am probably missing something, but I am not quite certain of the purpose of Schedules 5 to 8 and, more particularly, how they should be read together.

Val Lloyd: Mae gennyf gwestiynau ynghylch yr Atodlenni. Yr wyf mwy na thebyg wedi camddeall rhywbeth, ond nid wyf yn hollol sicr o bwrpas Atodlen 5 i 8 ac, yn fwy penodol, sut y dylid eu darllen gyda'i gilydd.

[168] **Alun Ffred Jones:** Which Schedules?

Alun Ffred Jones: Pa Atodlenni?

[169] **Val Lloyd:** Schedules 5 through to 8. How should they be read together?

Val Lloyd: Atodlen 5 hyd at 8. Sut dylid eu darllen gyda'i gilydd?

[170] **Alun Ffred Jones:** This is someone else's territory, I think.

Alun Ffred Jones: Credaf fod hyn yn faes i rywun arall.

[171] **Val Lloyd:** If it is not possible to answer now, I am happy to—

Val Lloyd: Os nad ydyw'n bosibl i chi ateb yn awr, yr wyf yn hapus i—

[172] **Alun Ffred Jones:** I am sure that Huw will be able to answer it now.

Alun Ffred Jones: Yr wyf yn sicr y gall Huw ateb y cwestiwn yn awr.

[173] **Dr Jones:** I will have a go.

Dr Jones: Gwnaf fy ngorau.

[174] Schedules 5 and 7 transfer into the proposed Measure the competence given to the Assembly by the LCO. Schedule 7, however, includes those persons who could only be subject to duties in relation to the services that they provide. I mentioned that, under matter 20.1 of LCO, which states,

Mae Atodlen 5 a 7 yn trosglwyddo'r cymhwysedd a roddwyd i'r Cynulliad gan yr LCO i'r Mesur arfaethedig. Fodd bynnag, mae Atodlen 7 yn cynnwys y bobl hynny a all ond fod yn destun i ddyletswyddau mewn perthynas â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Dywedais mai, yn unol â mater 20.1 yr LCO, sy'n datgan,

[175] 'persons providing services to the public under an agreement, or in accordance with arrangements, made with a public authority',

'personau sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd o dan gytundeb, neu'n unol â threfniadau, a wnaed gydag awdurdod cyhoeddus',

[176] duties can only be imposed in relation to those services. Also, matter 20.1(i) covers the gas, water and electricity services, sewerage services, postal services, telecoms and so on. Those, too, can only have duties placed on them with regard to those services. So, the competence there is narrower. Those in Schedule 7 can only have the service-delivery standards and the record-keeping standards imposed on them. That is why you have that separate Schedule.

dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny y gellid gosod dyletswyddau. Yn ogystal, mae mater 20.1(i) yn ymdrin â gwasanaethau nwy, dŵr a thrydan, gwasanaethau carthffosiaeth, gwasanaethau post, telathrebu ac yn y blaen. Dim ond mewn perthynas â'r gwasanaethau hynny y gellid gosod dyletswyddau ar y rheini hefyd. Felly, mae'r cymhwysedd yn fwy cul. O'r rheini sydd yn Atodlen 7, dim ond y safonau cyflenwi gwasanaethau a'r safonau cadw cofnodion y gellid eu gorfodi arnynt. Dyna paham y mae gennych yr Atodlen honno ar wahân.

[177] Schedule 5 lists all the other categories. You can think of that as transferring the competence into what we like to call a holding tank.

Mae Atodlen 5 yn rhestru'r holl gategoriâu eraill. Gallwch feddwl am hynny yn nhermau trosglwyddo'r cymhwysedd i'r hyn a alwn yn danc dros dro.

[178] Schedule 6 focuses more clearly on the sorts of organisations that we think should have duties imposed on them. You will see, for instance, that Schedule 5 mentions public authorities, and Schedule 6 goes on to list the different types of public authorities in Government and local government, as it were. Also, it lists in column (2) the types of standards that we think should be imposed on them. You will see that Welsh Ministers have promotions standards listed for them, as do county borough councils, but none of the others do.

Mae Atodlen 6 yn ffocysu yn gliriach ar y gwahanol fathau o sefydliadau yr ydym yn credu y dylid gosod dyletswyddau arnynt. Er enghraifft, fe welwch fod Atodlen 5 yn crybwyll awdurdodau cyhoeddus, ac mae Atodlen 6 yn mynd yn ei blaen i restru'r gwahanol fathau o awdurdodau cyhoeddus o fewn Llywodraeth a llywodraeth leol, fel petai. Yn ogystal, rhestra yng ngholofn (2) y mathau o safonau y credwn y dylid eu gosod arnynt. Gwelwch fod y safonau hybu wedi'u rhestru ar gyfer Gweinidogion Cymru, yn ogystal â chynghorau bwrdeistref sirol, ond nid ar gyfer y gweddill.

[179] Schedule 8 focuses on those organisations that can only have service and record-keeping standards imposed on them. It

Mae Atodlen 8 yn ffocysu ar y sefydliadau hynny na ellid ond gosod y safonau gwasanaeth a chadw cofnodion arnynt.

explains in column (2) what services we are talking about more precisely.

Esbonnir yn fwy penodol yng ngholofn (2) ynghylch pa wasanaethau yr ydym yn siarad amdanynt.

[180] Sorry, that is the best that I can do at the moment.

Mae'n flin gennyf, ond dyna'r ateb gorau y gallaf ei roi ar hyn o bryd.

[181] **Alun Ffred Jones:** Nerys, would you like to have a go at it, too?

Alun Ffred Jones: Nerys, a hoffech chi roi cynnig arni hefyd?

[182] **Ms Arch:** All that I can add is that, in section 24, there is a duty to comply with standards if you fulfil certain conditions. The first condition is that you are liable to have standards imposed on you. To be liable to have standards imposed on you, you have to appear within the description of bodies under Schedule 5, as well as in Schedule 6, and that means that it takes in all of your functions, potentially, because the Assembly's competence allows duties in relation to the Welsh language to be placed in respect of all your functions.

Ms Arch: Yr unig beth y gallaf ei ychwanegu yw, yn adran 24, ceir dyletswydd i gydymffurfio â safonau os ydych yn cyflawni rhai amodau. Y cyntaf o'r amodau hynny yw eich bod yn atebol i gael safonau wedi'i gosod arnoch. I fod yn atebol i gael safonau wedi'u gosod arnoch, mae'n rhaid eich bod yn ymddangos yn y disgrifiadau o gyrrff yn Atodlen 5, ynghyd ag Atodlen 6. Golyga hynny ei bod o bosibl yn cynnwys eich gweithrediadau i gyd oherwydd mae cymhwysedd y Cynulliad yn caniatáu gosod dyletswyddau mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yng nghyd-destun eich holl weithrediadau.

[183] Where the Assembly's competence is more restrictive in the extent of the duties in relation to the Welsh language that can be imposed on a body, they are described in general terms in Schedule 7, and the more particular ones selected are described in Schedule 8. If you appear in Schedules 7 and 8, or in 5 and 6, you will have passed this first test of becoming liable to have standards imposed upon you. Several other tests need to be satisfied before standards are actually imposed upon you, but that is the first test, which is to do with relevance.

Pan mae cymhwysedd y Cynulliad yn fwy cyfyngedig o ran y swyddogaethau y gellid eu gosod ar gorff mewn perthynas â'r iaith Gymraeg, disgrifir y swyddogaethau hynny mewn termau cyffredinol yn Atodlen 7. Disgrifir y rhai mwy penodol a ddetholwyd yn Atodlen 8. Os ydych yn ymddangos yn Atodlenni 7 ac 8, neu yn Atodlenni 5 a 6, byddwch wedi pasio'r prawf cyntaf o ran bod yn atebol i gael safonau wedi'u gosod arnoch. Bydd yn rhaid bodloni sawl prawf arall cyn i'r safonau gael eu gosod arnoch, ond dyna'r prawf cyntaf, ac mae'n ymwneud â pherthnasedd.

[184] **Val Lloyd:** Thank you. I shall look at the transcript—

Val Lloyd: Diolch. Fe wnaif edrych ar y trawsgrifiad—

[185] **Alun Ffred Jones:** So will I. [*Laughter.*]

Alun Ffred Jones: Gwnaf innau hefyd. [*Chwerthin.*]

[186] **Val Lloyd:** I will read the transcript and fix it firmly in my head, but I do have a better understanding now; thank you.

Val Lloyd: Byddaf yn darllen y trawsgrifiad a'i osod yn gadarn yn fy mhen, ond mae gennyf gwell dealltwriaeth yn barod; diolch.

[187] **Brynle Williams:** You were asked in Plenary about the relevance of the proposed Measure to the courts, and you replied that,

Brynle Williams: Gofynnwyd i chi yn y Cyfarfod Llawn ynghylch perthnasedd y Mesur arfaethedig i'r llysoedd, ac ymateboch

drwy ddweud,

[188] 'given that the courts are not devolved, they are not relevant to this proposed Measure'.

'gan nad yw'r llysoedd wedi'u datganoli, nid ydynt yn berthnasol i'r Mesur arfaethedig hwn'.

[189] However, as HM Courts Service, which deals with everything that happens outside the courtroom, including witnesses and jurors, currently operates a Welsh language scheme, can you confirm that the service will come within the ambit of the proposed Measure?

Fodd bynnag, gan fod Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, sy'n ymdrin â phopeth sy'n digwydd y tu allan i'r llys, gan gynnwys y tystion a'r rheithwyr, yn gweithredu cynllun iaith Gymraeg ar hyn o bryd, a fedrwch gadarnhau bod y gwasanaeth yn dod o fewn cwmpas y Mesur arfaethedig?

[190] **Alun Ffred Jones:** Yes.

Alun Ffred Jones: Gallaf.

[191] **Brynle Williams:** Diolch. That was a clear and succinct answer.

Brynle Williams: Thank you. Yr oedd eich ateb yn glir a chryno.

11.40 a.m.

[192] On the right of challenge, the proposed Measure aims to establish a system whereby duties that are imposed on public bodies are reasonable and proportionate. Who would judge what is reasonable and proportionate?

Ar yr hawl i herio, nod y Mesur arfaethedig yw sefydlu system a fydd yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus sy'n rhesymol ac yn gymesur. Pwy fydd yn barnu beth sy'n rhesymol ac yn gymesur?

[193] **Alun Ffred Jones:** Initially, it would be the commissioner, after discussions with the relevant bodies and sectors, and then, ultimately, the tribunal.

Alun Ffred Jones: I gychwyn, y comisiynydd, ar ôl trafodaethau gyda'r cyrff a'r sectorau perthnasol, ac yna, yn y pen draw, y tribiwnlys.

[194] **Brynle Williams:** Moving on to standards investigations, by empowering the Welsh language commissioner to seek court orders and to impose civil penalties, the post is arguably more powerful than similar watchdog posts in Wales, such as the Public Service Ombudsman for Wales. Can you explain why this is?

Brynle Williams: Gan symud ymlaen at yr ymchwiliad safonau, drwy roi'r grym i gomisiynydd yr iaith Gymraeg i sicrhau gorchmynion llys ac i bennu cosbau sifil, gellid dadlau fod y swydd yn fwy pwerus na swyddi gwarchotgwn eraill Cymru, megis Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. A fedrwch esbonio pahan y mae hyn?

[195] **Alun Ffred Jones:** As I explained earlier, it is not appropriate to compare the powers of the commissioner with, say, the Public Service Ombudsman for Wales, or to suggest that one is more powerful than the other. They are specific roles, and the commissioner has appropriate tools to perform his or her particular role. Unlike the ombudsman, the commissioner's role includes imposing duties on persons, and there is no point in imposing duties unless they can be enforced. That is why the

Alun Ffred Jones: Fel yr esboniais yn gynharach, nid ydyw'n briodol i gymharu pwerau'r comisiynydd â, dyweder, Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, neu i awgrymu fod un yn fwy pwerus na'r llall. Mae ganddynt swyddogaethau penodol ac mae gan y comisiynydd y cyfarpar priodol i ymgymryd â'i rôl ef neu hi. Yn wahanol i'r ombwdsman, mae rôl y comisiynydd yn cynnwys gosod dyletswyddau ar bersonau, ac nid oes unrhyw bwrpas gosod dyletswyddau os nad yw'n

procedure is laid out in the proposed Measure as to how that can be achieved.

bosibl eu gorfodi. Dyna paham y mae'r weithdrefn wedi'i nodi yn y Mesur arfaethedig o ran sut y gellid cyflawni hynny.

[196] **Brynle Williams:** Diolch am eich atebion, Weinidog.

Brynle Williams: Thank you for your answers, Minister

[197] **Gareth Jones:** Weinidog, hoffwn gyfeirio at ran 6 y Mesur arfaethedig, ynghylch y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae'r rhan hon yn rhoi pŵer i'r comisiynydd i ymchwilio i ymyriadau honedig penodol ar ryddid personau yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd. Mae adran 101 yn diffinio 'cyfathrebiad Cymraeg' fel cyfathrebiad yn Gymraeg rhwng dau unigolyn sydd wedi eu lleoli yng Nghymru.

Gareth Jones: Minister, I would like to refer to section 6 of the proposed Measure, which relates to the freedom to use Welsh. This section gives the commissioner the power to investigate specific alleged interferences with people's right in Wales to speak Welsh with one another. Section 101 defines a 'Welsh communication' as a communication in Welsh between two individuals who are located in Wales.

[198] Mae adran 102 yn pennu tri achos pan fernir

Section 102 prescribe three cases where

[199] 'bod D yn ymyrryd â rhyddid P i ymgymryd â chyfathrebiad Cymraeg ag R'.

'D is...taken to interfere with P's freedom to undertake a Welsh communication with R'.

[200] A allwch esbonio pam bod y Mesur arfaethedig yn cyfeirio at y rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn hytrach na'r hawl?

Can you explain why the proposed Measure mentions the freedom to use Welsh and not the right?

[201] **Alun Ffred Jones:** Mae gan bawb ryddid i siarad Cymraeg—neu unrhyw iaith arall, hyd y gwn i—gyda'i gilydd. Dyna'r sefyllfa. Os ydych yn ceisio creu hawl i rywun siarad Cymraeg, y perygl yw y byddech yn creu dosbarth o leoedd lle nad oes gan rywun hawl i wneud hynny. Byddai'n rhaid diffinio'r hawl honno yn ôl yr hyn sy'n rhesymol ac yn gymesur. Felly, y perygl yw y byddem yn creu sefyllfa yng Nghymru na fyddem yn ei dymuno, yn ddianghenraid. Mae sefyllfaoedd wedi codi yng Nghymru—ond nid cymaint â fyddai rhywun yn meddwl, efallai—lle mae rhywun yn teimlo bod ei ryddid i siarad Cymraeg wedi cael ei rwystro. Bydd gan y comisiynydd hawl i ymchwilio i achosion o'r fath ac i gyflwyno adroddiad cyhoeddus, gan obeithio y bydd hynny'n ddigonol i sicrhau'r rhyddid hwnnw ym mhob man.

Alun Ffred Jones: Everyone has the freedom to speak Welsh—or any other language, as far as I know—with one another. That is the situation. If you try to establish a right for someone to speak Welsh, the danger is that you would create a class of places where someone does not have the right to do so. That right would have to be defined according to what is reasonable and proportionate. Therefore, the danger is that we would needlessly create a situation in Wales that we do not want to see. Situations have arisen in Wales—although perhaps not as many as you might think—where someone has felt that their freedom to speak Welsh has been restricted. The commissioner will have the right to investigate such cases and to produce a public report, in the hope that that will be sufficient to ensure that that right exists everywhere.

[202] Mae'r Mesur arfaethedig yn dweud hefyd bod y comisiynydd yn gorfod adrodd yn ôl am hynny yn gyson i'r Llywodraeth. Os yw'n teimlo nad yw'r ddeddfwriaeth fel ag y mae yn ddigon cryf neu effeithiol, gall wneud argymhellion i'r gwrthwyneb. Ar hyn o bryd,

The proposed Measure also states that the commissioner has to regularly report on that to the Government. If the commissioner feels that the legislation as it stands is not strong or effective enough, he can make recommendations in that regard. At the

mae dwy farn ynglŷn â hynny ym myd y gyfraith—mae'n debyg bod llawer mwy na dwy—ond yr ydym ni fel Llywodraeth yn teimlo ei bod yn well dilyn llwybr o sôn am ryddid a rhoi'r pŵer i'r comisiynydd i ymchwilio nac un a allai arwain at leoedd dyrys iawn o ran hawliau.

[203] **Dr Jones:** Mae'n bwysig sylweddoli bod hyn yn ymwneud â rhyddid dau berson sydd eisiau siarad Cymraeg â'i gilydd i wneud hynny. Nid yw o reidrwydd yn ymwneud â pherthynas person â chorff cyhoeddus, neu â sefyllfa pan fo rhywun yn dymuno cael gwasanaeth gan gorff cyhoeddus. Er enghraifft, efallai fod dau ffrind mewn canolfan hamdden eisiau siarad Cymraeg â'i gilydd, ond bod rhywun yn ymyrryd â'r rhyddid hwnnw.

[204] **Gareth Jones:** Mae hynny'n dod â mi at gwestiwn a fyddai, o dan amgylchiadau eraill, yn cael ei alw'n *trick question*, ond nid yw'n gwestiwn o'r fath. Cawsoch eich dyfynnu mewn datganiad i'r wasg—a mae'n debyg fod hwn yn gyfle ichi egluro'r sefyllfa—a gyhoeddwyd wrth gyflwyno'r Mesur arfaethedig. Yr ydych yn dweud y bydd yn

[205] 'sichrau bod gan siaradwyr Cymraeg yr hawl i gael gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg—a sefydlu Comisiynydd i sichrau bod y hawliau yna yn cael eu darparu.'

[206] **Alun Ffred Jones:** Yr ydych yn sôn am rywbeth gwahanol i'r cwestiwn blaenorol. Yr ydym yn sôn am y dyletswyddau a osodir ar gyrff, sy'n cael eu disgrifio fel safonau yn y Mesur arfaethedig. Nid wyf yn gyfreithiwr, ond dyna ddull cyfraith Prydain o roi hawliau i unigolion. Os oes dyletswydd, mae'r unigolyn yn gallu disgwyl y gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg neu'n Saesneg yng Nghymru, ac felly, mae ganddo hawliau, oherwydd os nad yw'n cael y gwasanaeth yn ôl y diffiniad, mae ganddo hawl i apelio at y comisiynydd, sydd â dyletswydd i ymchwilio ac i gymryd y camau priodol. Felly, mae o leiaf dwy farn ar hwn yng Nghymru, ond mae'r hawliau hynny'n deillio o'r safonau. Dyna'r ffordd yr ydym yn eu diffinio.

moment there are two views about this in the world of law—there are probably far more than two—but we as a Government feel that it is better to pursue a path that talks about the freedom and that gives the commissioner the right to investigate, rather than one that could lead to very complex areas with regard to rights.

Dr Jones: It is important to realise that this relates to the freedom of two people who wish to speak Welsh with one another to do so. It does not necessarily relate to a person's relationship with a public body, or to a situation where someone wants to receive a service from a public body. For example, perhaps two friends who are at a leisure centre want to speak Welsh with one another, but then someone interferes with that freedom.

Gareth Jones: That brings me to a question that, under different circumstances, would be called a 'trick question', although it is not one. You have been quoted in a press release—this is perhaps an opportunity for you to set the record straight—that was issued when the proposed Measure was introduced. You say that it will

'answer the call for Welsh speakers to have the right to receive services in Welsh—and will establish a Welsh Language Commissioner to enforce these rights.'

Alun Ffred Jones: You are talking about something different from the previous question. We are talking about the duties placed on bodies, which are described as standards in the proposed Measure. I am not a lawyer, but that is the means by which British law gives rights to individuals. If there is a duty, the individual can expect to receive that service in Wales in Welsh or in English, and, therefore, has rights because if he or she does not receive the service according to the definition, he or she is entitled to appeal to the commissioner, who has a duty to investigate and to take appropriate steps. So, there are at least two views on this in Wales, but those rights are derived from the standards. That is how we define them.

[207] **Gareth Jones:** Yr wyf yn ddiolchgar ichi am egluro'r berthynas hwnnw rhwng y rhyddid a'r hawl yn y cyd-destunau gwahanol—mae'r ddau beth yn wahanol, fel yr ydych wedi'i egluro inni.

Gareth Jones: I am grateful to you for clarifying the relationship between freedoms and rights in the different contexts—the two things are different, as you have explained to us.

[208] A yw'r rhyddid i ddefnyddio'r Gymraeg yn rhyddid cyffredinol neu'n rhyddid rhwng dau neu ragor o bobl?

Is the freedom to use Welsh a general freedom or is it a freedom between two or more people?

[209] **Alun Ffred Jones:** Yr ydym yn mynd yn ôl yn awr i'ch cwestiwn blaenorol ar y rhyddid i siarad Cymraeg rhwng dau berson sy'n dymuno gwneud hynny. Nid oes gennyf ddim i'w ychwanegu. Mae'r Mesur arfaethedig yn datgan ei fod yn bodoli a pe buasai rhywun yn teimlo fod rhywun yn ymyrryd â'r rhyddid hwnnw, byddai gan y comisiynydd yr hawl i ymchwilio.

Alun Ffred Jones: We are now going back to your previous question on the freedom to speak Welsh between two people who wish to do so. I have nothing to add. The proposed Measure states that it exists and if someone felt that someone were interfering with that freedom, then the commissioner would have the right to investigate.

[210] **Gareth Jones:** A allwch roi enghreifftiau ymarferol i egluro'r tri achos gwahanol a ddisgrifir yn adran 102?

Gareth Jones: Could you give practical examples to clarify the three different cases described in section 102?

[211] **Dr Jones:** Gall fod yn rheolwr mewn gweithle yn gofyn i ddau berson i beidio â siarad Cymraeg gyda'i gilydd yn y fan a'r lle. Gall fod yn gydweithwyr yn bwlio dau berson gan eu bod yn siarad Cymraeg—yn eu pryfocio drwy ddweud ei fod yn iaith hurt ac yn eu dynwared. Gall fod yn rheolwr yn dweud wrth ddau berson i beidio â siarad Cymraeg yn y dyfodol. Gall hefyd fod yn rheolwr yn symud dau berson sy'n hoffi siarad Cymraeg gyda'i gilydd i'r naill ben a'r llall o'r swyddfa er mwyn eu rhwystro rhag siarad Cymraeg, ac y math hwnnw o beth.

Dr Jones: It could be a manager in a workplace asking two people to stop speaking Welsh to each other on the spot. It could be colleagues bullying two people because they are speak Welsh—provoking them by saying that it is an absurd language and imitating them. It could be a manager telling two people not to speak Welsh in the future. It could also be a manager moving two people who like to speak Welsh with each other to opposite ends of the office to prevent them from speaking Welsh, and that type of thing.

[212] **Lorraine Barrett:** I am looking at the Welsh-language tribunal and I understand that Welsh Ministers will appoint the tribunal. What is your response to concerns that the tribunal will not be sufficiently independent from Ministers?

Lorraine Barrett: Yr wyf yn edrych ar driwlynlys yr iaith Gymraeg ac yr wyf yn deall mai Gweinidogion Cymru fydd yn penodi'r triwlynlys. Beth yw eich ymateb chi i bryderon na fydd y triwlynlys yn ddigon annibynnol ar y Gweinidogion?

[213] **Alun Ffred Jones:** I do not accept that, because the tribunal will be sufficiently independent of both the commissioner and the Welsh Ministers. There are other examples of tribunals and I have not heard that sort of criticism made of other tribunals. They will be appointed along similar lines and using similar procedures to those other tribunals.

Alun Ffred Jones: Nid wyf yn derbyn hynny, oherwydd bydd y triwlynlys yn ddigon annibynnol ar y comisiynydd a Gweinidogion Cymru. Mae enghreifftiau eraill o driwlynlysoedd yn bod ac nid wyf wedi clywed y fath feirniadaeth o driwlynlysoedd eraill. Byddant yn cael eu penodi mewn ffyrdd tebyg a chan ddilyn gweithdrefnau tebyg i'r triwlynlysoedd eraill.

[214] **Lorraine Barrett:** What adds to that concern is the proposal that the secretariat function of the tribunal will be undertaken by Welsh Ministers. Why is that appropriate on the grounds of cost?

Lorraine Barrett: Yr hyn sy'n ychwanegu at y pryder hwnnw yw'r cynnig mai Gweinidogion Cymru fydd yn ymgymryd â swyddogaeth ysgrifenyddiaeth y tribiwnlys. Pam fod hynny'n briodol ar sail cost?

[215] **Alun Ffred Jones:** The hope is that this tribunal will sit very infrequently. Since it is not sensible to set up an expensive structure in the expectation that it will sit every week or month or whatever, it is better at this stage to accommodate that through existing procedures. However, if that proves to be insufficient or compromised in some way, we can look at new arrangements in future.

Alun Ffred Jones: Y gobaith yw y bydd y tribiwnlys hwn yn eistedd yn anaml iawn. Gan nad yw hi'n synhwyrol i sefydlu strwythur drud gyda'r disgwyliad y bydd yn eistedd bob wythnos neu fis neu faint bynnag, mae'n well ar hyn o bryd i wneud hynny gyda gweithdrefnau sydd eisoes yn bodoli. Fodd bynnag, os gwelwn fod hynny'n annigonol neu wedi'i gyfaddawdu mewn rhyw ffordd, gallwn edrych ar drefniadau newydd yn y dyfodol.

11.50 a.m.

[216] **Lorraine Barrett:** I am glad that you mentioned that, Minister, because I was going to ask how often the tribunal might sit. I have this picture of the commissioner and his or her advisory panel, and the tribunal with a president, legal members and lay members. Would the tribunal meet quarterly, or—

Lorraine Barrett: Yr wyf yn falch i chi grybwyll hynny, Weinidog, oherwydd yr oeddwn yn mynd i ofyn pa mor aml fyddai'r tribiwnlys yn eistedd. Mae gen i ddelwedd yn fy meddwl o'r comisiynydd a'i banel cynghori, a'r tribiwnlys â llywydd, aelodau cyfreithiol ac aelodau lleyg. A fyddai'r tribiwnlys yn cwrdd yn chwarterol, neu—

[217] **Alun Ffred Jones:** The tribunal will only meet when it is required to do so. The advisory panel will have no role whatsoever in assisting in the day-to-day work of the commissioner. I think that I am right in saying that the experience of the Irish commissioner, although I do not think that he is backed by a tribunal, is that it is very rarely that cases come to the ultimate point. They are usually resolved along the way, as one would hope. Therefore, this tribunal, in our view, should not be meeting very regularly—it will be a sign of failure if it does, perhaps.

Alun Ffred Jones: Ni fydd y tribiwnlys ond yn cwrdd pan fydd angen iddo gwrdd. Ni fydd gan y panel ymgynghori rôl o gwbl o ran cynorthwyo â gwaith y comisiynydd o ddydd i ddydd. Credaf fy mod yn gywir wrth ddweud bod profiad y comisiynydd yn Iwerddon, er nad wyf yn credu bod tribiwnlys ganddo i'w gefnogi, yn dangos mai yn anaml y mae achosion yn cyrraedd y pen eithaf. Gan amlaf, cânt eu datrys fel rhan o'r broses, fel y byddai rhywun yn ei obeithio. Yn ein barn ni felly, ni ddylai'r tribiwnlys hwn gwrdd yn rheolaidd iawn—efallai y byddai'n arwydd o fethiant pe byddai'n gwneud hynny.

[218] **Lorraine Barrett:** I presume that the members of the tribunal would be appointed and that whoever was available could be called upon to sit in a tribunal. Would some members be on call or—

Lorraine Barrett: Yr wyf yn cymryd y bydd aelodau'r tribiwnlys yn cael eu penodi ac y caiff pwy bynnag sydd ar gael eu galw i eistedd ar dribiwnlys. A fyddai rhai aelodau ar alwad neu—

[219] **Alun Ffred Jones:** Usually, a pool is appointed and whoever is available is chosen.

Alun Ffred Jones: Fel arfer, caiff grŵp o bobl eu penodi a bydd pwy bynnag sydd ar gael yn cael eu dewis.

[220] **Dr Jones:** Paragraph 8.48 of the explanatory memorandum attempts to give an illustration of how often we think that the tribunal might sit, based on the number of complaints that the language board tends to get at present. We estimate that it will meet 15 days per annum, but that is just an estimate.

[221] **Michael German:** Minister, I questioned you at the beginning about the independence of the commissioner from the Welsh Assembly Government, and Lorraine has just asked you a couple of questions about the independence of the tribunal from the Welsh Assembly Government and also from the commissioner. You have extensive powers over the tribunal—the rules of the tribunal are subject to the approval of Welsh Ministers, and the directions that the president of the tribunal gives are subject to the approval of Welsh Ministers, except on one occasion. There are a whole raft of ways in which Ministers can assert power over the commissioner and the tribunal. Where in the proposed Measure are the checks and balances against ministerial interference in the independence of the tribunal and the commissioner's work?

[222] **Alun Ffred Jones:** I would suggest that the Assembly itself is an important check and balance on the behaviour of Ministers. In general, if that was the case, the advisory panel, with the commissioner, might wish to make its views heard. As far as I understand it, in terms of the behaviour of the tribunal, Welsh Ministers may not participate in determining any proceedings before the tribunal, and tribunal members will have security of tenure, with five-year terms, and removal from office can only occur on the grounds specified in the proposed Measure.

[223] **Michael German:** What I am seeking are the exact points in the proposed Measure where those checks and balances are specified. On the appointment of the commissioner, the Assembly may be consulted by the Minister—not 'must be' or 'should be', but 'may be', so it is not an absolute right. I cannot see anything in Schedule 11, relating to the tribunal, where

Dr Jones: Mae paragraff 8.48 o'r memorandwm esboniadol yn ceisio esbonio pa mor aml yr ydym yn meddwl y bydd y tribiwnlys yn eistedd, yn seiliedig ar nifer y cwynion mae'r bwrdd iaith yn ei dderbyn ar hyn o bryd. Yr ydym yn amcangyfrif y bydd yn cwrdd 15 diwrnod o'r flwyddyn, ond amcangyfrif yn unig yw hynny.

Michael German: Weinidog, fe'ch holais ar y dechrau am ba mor annibynnol fyddai'r comisiynydd ar Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac mae Lorraine newydd ofyn ychydig o gwestiynau i chi am ba mor annibynnol fyddai'r tribiwnlys ar Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r comisiynydd. Mae gennych bwerau aruthrol dros y tribiwnlys—Gweinidogion Cymru a fydd yn cymeradwyo rheolau'r tribiwnlys, a bydd y cyfarwyddiadau a roddir gan llywydd y tribiwnlys yn ddibynnol ar gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru, ac eithrio mewn un achos. Mae sawl ffordd y gall Gweinidogion gael pŵer dros y comisiynydd a'r tribiwnlys. Ble mae'r rhwystrau a'r gwrthbwyso yn y Mesur arfaethedig a fydd yn atal Gweinidogion rhag ymyrryd ag annibyniaeth y tribiwnlys a gwaith y comisiynydd?

Alun Ffred Jones: Byddem yn awgrymu fod gan y Cynulliad rôl bwysig o ran rhwystro a gwrthbwyso ymddygiad Gweinidogion. Yn gyffredinol, os mai dyna fyddai'r achos, byddai'r panel ymgynghori, gyda'r comisiynydd, am fynegi ei farn yr wyf yn siŵr. O ran yr hyn yr wyf yn ei ddeall am ymddygiad y tribiwnlys, ni chaiff Gweinidogion Cymru gymryd rhan ym mhenderfynu ar unrhyw achosion sydd ger bron y tribiwnlys a bydd gan aelodau'r tribiwnlys sicrwydd daliadaeth am dymhorau o bum mlynedd, a dim ond ar sail yr hyn sydd wedi'i nodi yn y Mesur arfaethedig y gellir diswyddo aelodau.

Michael German: Yr hyn yr wyf yn ei geisio yw'r pwyntiau penodol yn y Mesur arfaethedig sy'n nodi'r rhwystrau a'r gwrthbwyso hynny. O ran penodi comisiynydd, gall y Gweinidog ymgynghori â'r Cynulliad—nid 'rhaid' neu 'dylai', ond 'gall', felly nid yw'n orfodol. Ni allaf weld dim yn Atodlen 11, sy'n ymwneud â'r tribiwnlys, lle mae gan y Cynulliad unrhyw

the Assembly has any role, unless you were to specify that in the regulations. Would it be possible to have a note on where in the proposed Measure there are those checks and balances?

[224] **Alun Ffred Jones:** We will provide you with that note.

[225] **Gareth Jones:** Weinidog, yr ydych wedi cyfeirio at yr hyn sydd dan sylw yn y cwestiwn hwn, ond mae'n gwestiwn sy'n codi'n aml iawn mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn gyffredinol, ac mae hyn yn rhoi cyfle inni ofyn y cwestiwn yn benodol ac ichi roi eglurhad. Pa ystyriaeth, os o gwbl, a roddwyd i fabwysiadu dull sy'n seiliedig ar hawliau unigolion fel y ceir mewn darnau eraill o ddeddfwriaeth ym maes cydraddoldeb? Pam na fabwysiadwyd dull o'r fath mewn perthynas â'r iaith Gymraeg?

[226] **Alun Ffred Jones:** Rhoddwyd ystyriaeth i hynny, ond credaf fod y ffordd o weithio y mae'r Mesur arfaethedig yn ei chynnig yn symlach o safbwynt y defnyddiwr, oherwydd ei bod yn eglur i'r cyrff sydd yn gorfod cyflawni'r dyletswyddau beth maent i fod i gyflawni a hefyd yn eglur i'r cwsmer beth y gall ef neu hi ei ddisgwyl. Os yw'r cwsmer yn teimlo nad yw ef neu hi yn derbyn y gwasanaeth hwnnw, mae'n eglur yn y Mesur arfaethedig sut y gellir apelio. Mae'r comisiynydd, sy'n eiriolwr ac yn bencampwr i'r cwsmer yn yr achosion hynny, ac yna mae'r broses yr wyf wedi disgrifio o ran y tribiwnlys.

[227] Ni fyddai creu hawliau cyffredinol, yn ein barn i, yn rhoi'r eglurder i'r defnyddiwr ynglŷn â beth yn union yw'r hawliau sydd i fod ganddo. Credwn y byddai hynny yn gam yn ôl ac efallai yn arwain at fwy o aneglurder a herio yn y llysoedd nag y byddai'n fuddiol i'r Gymraeg. Felly, er bod y Mesur arfaethedig yn un hir a thrylwyr, nid wyf yn siŵr pa mor gymhleth ydyw. Yn sicr, mae'n eglur iawn yn yr hyn y mae'n disgwyl yn y deilliannau. Ein barn ni yw bod hynny'n well, yn y pen draw, na'r cyfeiriad yr ydych wedi sôn amdano, sef creu rhyw fath o hawl neu hawliau cyffredinol.

[228] Ni chredaf fod cymhariaeth â maes cydraddoldeb yn gymhariaeth resymol,

rôl, oni bai eich bod yn mynd i nodi hynny'n benodol yn y rheoliadau. A fyddai modd cael nodyn ar le yn y Mesur arfaethedig y gwelir y rhwystrau a'r gwrthbwsau hynny?

Alun Ffred Jones: Fe wnawn ddarparu'r nodyn hwnnw i chi.

Gareth Jones: Minister, you have referred to what is covered in this question, but it is a question that often arises in relation to the Welsh language in general, and this provides us with an opportunity to ask the question specifically and for you to give clarification. What consideration, if any, was given to adopting an approach based on individual rights, such as is used in other legislation in the equality field? Why was such an approach not adopted in relation to the Welsh language?

Alun Ffred Jones: Consideration was given to that, but I believe that the approach suggested in the proposed Measure is simpler from the user's perspective, because it is clear to the bodies that have to meet the duties what they are meant to do and it is also clear to the customer what he or she can expect. If the customer feels that he or she is not receiving that service, it is clear in the proposed Measure how to appeal. There is the commissioner, who is an advocate and a champion for the customer in those cases, and then there is the process that I have described in relation to the tribunal.

Creating general rights, in our view, would not provide clarity for users on exactly what rights they are supposed to have. We believe that that would be a retrograde step and could lead to a greater lack of clarity and more challenges in the courts than would be beneficial to the Welsh language. Therefore, although the proposed Measure is long and thorough, I am not sure how complex it is. It is certainly clear about the outcomes expected. Our view is that that is better, at the end of the day, than the direction that you described, namely creating some sort of general right or rights.

I do not believe that a comparison with the field of equality is a reasonable comparison,

oherwydd ein bod yn sôn am wasanaethau dydd i ddydd, bob dydd, ymarferol.

because we are speaking about day-to-day, everyday, practical services.

[229] **Dr Jones:** Mae'n ddiddorol gweld cyngor y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i bobl sy'n ystyried dwyn achos yn erbyn corff maent yn meddwl sydd wedi gwahaniaethu yn eu herbyn. Darllenaf ychydig o'r cyngor.

Dr Jones: It is interesting to see the advice offered by the Equality and Human Rights Commission to people who are considering bringing a case against a body that they feel has discriminated against them. I will read a little of that advice.

[230] 'Before making a claim, you should carefully consider whether it is the right course of action for you. Making a claim is demanding on your time and emotions, and before starting the process you may want to assess whether or not you have a good chance of succeeding....The first stage in making this assessment is to understand what your rights are. These depend on your circumstances....It can be hard to make this assessment yourself and it is sensible to seek legal advice before actually making a claim.'

Cyn dwyn achos, dylech ystyried yn ofalus os mai dyna yw'r cam cywir i'w gymryd. Mae dwyn achos yn cymryd amser ac yn rhoi straen ar eich emosiynau. Cyn dechrau'r broses efallai y byddech am asesu eich siawns o lwyddo. Y cam cyntaf wrth wneud yr asesiad hwn yw deall beth yw eich hawliau. Mae'r rhain yn dibynnu ar eich hamgylchiadau. Gall fod yn anodd i chi wneud yr asesiad hwn eich hun, a byddai'n synhwyrol ichi gael cyngor cyfreithiol cyn dwyn achos.

[231] Mae hynny'n rhoi syniad i chi. Bydd y gwasanaeth y bydd y comisiynydd yn ei gynnig yn syml a bydd pawb yn gallu deall yn rhwydd pa fath o wasanaeth y dylent ei dderbyn. Felly, yr ydym yn meddwl bydd yn well.

That gives you an idea. The service that the commissioner will offer will be simple and everyone will be able to understand easily what kind of service they should receive. Therefore, we think that it will be better.

[232] **Val Lloyd:** Minister, we have come to the end of our questioning. Would you like to make any additional comments?

Val Lloyd: Weinidog, dyna ddiwedd ein cwestiynau. Hoffech chi wneud unrhyw sylwadau pellach?

[233] **Alun Ffred Jones:** Hoffwn ddiolch i aelodau'r pwyllgor am eu cwestiynau. Os byddwch yn chwilio am fwy o eglurdeb, yr ydym yn fwy na pharod i geisio cyflwyno gwybodaeth neu dystiolaeth ychwanegol. Edrychaf ymlaen at gael gyfle arall i ddod yn ôl atoch yn y dyfodol os dymunwch imi wneud hynny. Diolch yn fawr.

Alun Ffred Jones: I would like to thank committee members for their questions. If you are looking for further clarity, we are more than willing to try to present additional information or evidence. I look forward to having another opportunity to appear before you in the future if you wish me to do so. Thank you very much.

[234] **Val Lloyd:** I also thank you and your officials, Huw Onllwyn Jones and Nerys Arch, on behalf of committee members for coming here today and answering our questions so fully. You will receive a transcript of today's proceedings from the clerk for correction before it is finalised.

Val Lloyd: Hoffwn ddiolch i chi a'ch swyddogion, Huw Onllwyn Jones a Nerys Arch, ar ran aelodau'r pwyllgor am ddod yma heddiw ac am ateb ein cwestiynau mewn modd mor gynhwysfawr. Bydd y clerc yn anfon trawsgrifiad o drafodion heddiw atoch i'w gywiro os oes angen, cyn i'r fersiwn derfynol gael ei chyhoeddi.

[235] I see that there are no further points from Members. Therefore, I declare the meeting closed.

Gwelaf nad oes unrhyw bwyntiau pellach gan Aelodau i'w gwneud. Yr wyf yn datgan felly, bod y cyfarfod hwn ar ben.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.00 p.m.
The meeting ended at 12.00 p.m.